

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol Hillview

Dyddiad yr arolygiad: 15 –17 Tachwedd 2021

Dyddiad cyhoeddi: 8 Gorffennaf 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom	9
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	31
4.	Beth nesaf?	35
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	36
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	377
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	388
	Atodiad B – Cynllun gwella	588

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Iechyd Meddwl Annibynnol Hillview ar noson 15 Tachwedd a'r diwrnodau canlynol, sef 16 a 17 Tachwedd 2021.

Mae Hillview yn ysbyty annibynnol sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasoed i fenywod rhwng 13 (tair ar ddeg) a 18 (deunaw) oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddwl ac sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae gan yr ysbyty dair ward:

- Ward Brenin – ward derbyn
- Ward Ebwy – ward pontio
- Ward Tŷ Seren – ward derbyn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), ac un adolygydd arbenigol drwy brofiad. Arweiniodd arolygydd AGIC yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfedd â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sut roedd yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd nifer o feysydd gennym yr oedd angen eu gwella'n sylweddol, yn enwedig o ran atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, a llywodraethu ac arweinyddiaeth. Oherwydd pryderon ynghylch diogelwch y cleifion, fe wnaethom gyhoeddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, lle'r ydym yn ysgrifennu at y gwasanaeth yn syth ar ôl ein harolygiad gyda'n canfyddiadau yn gofyn am gamau unioni brys.

Roedd angen gwelliannau sylweddol hefyd o ran cwblhau dogfennau clinigol i gofnodi'r gofal a ddarperir yn yr ysbyty yn gywir ac yn glir.

Nodwyd pryderon gennym ynghylch amllder digwyddiadau. Er bod y gwasanaeth yn gofalu am grŵp cleifion cymhleth, nodwyd bod amllder digwyddiadau yn broblem yn yr arolygiad hwn a'r arolygiad blaenorol, ac mae angen i'r gwasanaeth wneud popeth o fewn ei allu i reoli a lliniaru'r digwyddiadau hyn a sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi.

Roedd y prosesau llywodraethu ac archwilio yn yr ysbyty yn annigonol ac wedi methu â monitro a chynnal ansawdd a diogelwch yn yr ysbyty.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom berthynas dda rhwng y cleifion a'r staff
- Roedd rhai cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am eu profiad yn yr ysbyty
- Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a adolygwyd gennym wedi'u cwblhau i safon dda
- Cwblhau hyfforddiant gorfodol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gweithredu i sicrhau bod prosesau llywodraethu yn gweithredu mor effeithiol â phosibl
- Glanweithdra'r ysbyty a'r ystafelloedd clinigol
- Rheoli a storio meddyginiaeth
- Trefnu a chwblhau cynlluniau gofal
- Gwella'r manylion a gofnodir ar ffurflenni digwyddiadau gyda dadansoddiad mwy cadarn

Roedd gennym rai pryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch y cleifion a gafodd sylw o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu y gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith ar ôl yr arolygiad, gan amlinellu'r camau unioni ar unwaith yr oedd eu hangen. Roedd y rhain mewn perthynas â chyflenwi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Mae manylion y gwelliannau sydd eu hangen ar unwaith wedi'u crynhoi isod ac mae'r camau y mae'r darparwr wedi eu cymryd / yn eu cymryd i fynd i'r afael â nhw wedi'u darparu yn Atodiad B:

- Methodd yr ysbyty â darparu amgylchedd glân a diogel
- Roedd yr oergell feddyginiaeth ar Ward Tŷ Seren heb ei chloi ac roedd y tu mewn i'r oergell yn llychlyd ac yn cynnwys meddyginiaeth hylif wedi colli
- Ni chawsom sicrwydd bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi, ei dosbarthu a'i gwaredu yn ddiogel nac yn cael ei harchwilio'n gywir yn yr ysbyty, gan arwain at risg uniongyrchol i ddiogelwch y cleifion
- Nid oedd y system o gofnodi a monitro digwyddiadau lle defnyddiwyd ataliaeth i reoli'r cleifion yn effeithiol, ac nid oedd yn rhoi sicrwydd bod pob digwyddiad yn cael ei gofnodi'n gywir
- Nododd yr arolygwyr ddigwyddiad y gwnaeth AGIC ei gyfeirio at broses ddiogelu'r awdurdod lleol
- Nid oedd cofnodion cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac roedd yn anodd dod o hyd iddynt a'u defnyddio
- Methodd prosesau llywodraethu ac archwilio yn yr ysbyty â chynnal ansawdd a diogelwch yn yr ysbyty

These are serious matters and resulted in the issue of a non compliance notice to the service. At the time of publication of this report, HIW received sufficient assurance of the actions taken to address the improvements needed.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Regis Healthcare Limited wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol ar gyfer cleifion iechyd meddwl plant a'r glasoed yn Ysbyty Hillview, Glynebwy, Gwent, NP23 5YA.

Mae gan y gwasanaeth dair ward sy'n darparu gofal i bobl dan 18 oed. Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 15 Ionawr 2014.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys yr unigolyn cyfrifol, nyrsys cofrestredig, a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, seicolegwyr cynorthwyol, therapyddion galwedigaethol, cynorthwywyr technegol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a chydlynwyr gweithgareddau. Roedd tîm gweinyddol mawr hefyd a oedd yn cefnogi'r timau clinigol i redeg yr ysbyty o ddydd i ddydd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod staff yn rhyngweithio â chleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad.

Gellir gwneud gwelliannau pellach i amgylchedd y ward i'w wneud yn fwy croesawgar a diddorol i'r grŵp cleifion. Byddai mwy o ffocws ar gynnal amgylchedd glân a thaclus trwy gydol y dydd hefyd yn helpu i ddarparu profiad gwell i'r cleifion.

Roedd gan y cleifion ystod o gyfleoedd addysgol, gweithgareddau hamdden a therapïau ar gael iddynt yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

O fewn yr ysbyty, roedd ystod o daflenni gwybodaeth perthnasol i'r cleifion, teuluoedd ac ymwelwyr eraill. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am iechyd a lles meddyliol a chorfforol.

Roedd ysgol yn yr ysbyty, o'r enw Tŷ Seren, a oedd yn rhoi mewnbwn addysgol i'r cleifion pan oeddent yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Roedd gan yr ysgol staff addysgu a chymorth penodedig i hwyluso gwersi. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai dim ond byrddau a chadeiriau oedd yn yr ystafell ddosbarth ac nad oedd ganddi unrhyw adnoddau addysgol na phosteri ar y wal i'w gwneud yn amgylchedd mwy diddorol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd ystod o adnoddau ar gael yn yr ysbyty, gan gynnwys celf a chrefft, llyfrau, a gemau bwrdd. Mae mewnbwn gan dechnegwyr therapi galwedigaethol ac uwch-weithwyr cymorth yn helpu i ddarparu ystod o weithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Roedd gan y cleifion hefyd fynediad i gampfa'r ysbyty, a oedd â digon o gyfarpar ac a oedd yn addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, roedd gweddillion a llwch ar loriau'r carped ym mhrif fannau'r cleifion ar y ddwy ward ac roedd deunydd lapio bwyd yn cael ei daflu ar y llawr. Roedd y manau hyn yn ymddangos yn flêr iawn ond roeddent wedi'u glanhau pan ddychwelodd y tîm arolygu y diwrnod canlynol.

Gwelsom rai cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r staff a gwelsom rywfaint o ymgysylltu a rhyngweithio da. Pan oedd y staff yn ymgysylltu, roedd yn cael ei wneud yn briodol, ond gwelsom hefyd adegau pan nad oedd ymgysylltu o gwbl.

Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu, deintyddol a gweithwyr proffesiynol ieuchyd eraill yn y gymuned yn ôl y gofyn. Roedd gan y staff fynediad at gerbydau ysbyty dynodedig a oedd yn galluogi'r staff i hwyluso gweithgareddau ac apwyntiadau meddygol y cleifion yn y gymuned.

Mae Ysbyty Hillview yn uned dim ysmegu ac ni chaniateir ysmegu unrhyw le o fewn yr adeilad nac ar dir yr ysbyty. Roedd gerddi y gallai'r bobl ifanc fynd iddynt ac roedd ardal hefyd lle gallai anifeiliaid anwes y teulu fynychu ac ymweld â'r cleifion.

Roedd posteri yn y wardiau yn ymwneud â bwyta'n iach a phum cam tuag at lesiant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod yr ysbyty yn parhau i fod yn lân ac yn daclus bob amser
- Bod yr amgylchedd yn cael ei wella i'w wneud yn fwy dymunol a diddorol i'r cleifion
- Bod yr holl staff yn rhyngweithio'n dda â'r cleifion pan fyddant yn gwneud arsylwadau

Urddas a pharch

Gwelsom fod yr holl weithwyr, staff wardiau ac uwch-reolwyr yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roedden nhw'n cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Gwelsom staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a godwyd gan y cleifion; dangosodd hyn fod gan staff agwedd ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Cyfrannodd polisiâu'r ysbyty a'r arferion staff a welsom at gynnal urddas y cleifion a gwella gofal unigol yn yr ysbyty.

Yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, roedd bwrdd gwybodaeth cleifion yn cynnwys enwau a lefelau arsylwi'r cleifion ar Ward Ebwy heb ei orchuddio ac roedd mewn man cleifion. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bwrdd hwn wedi'i orchuddio i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Disgrifiodd datganiad o ddiben y darparwr cofrestredig hefyd sut y byddai staff yr ysbytai yn cefnogi'r cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd yr ystafelloedd gwely yn yr ysbyty'n cynnig man storio addas, ac roedd ystafelloedd y cleifion yn cynnwys eitemau personol megis lluniau a phosteri. Ni allai'r cleifion gloi drysau eu hystafelloedd gwely, ond gallai drysau gael eu cau yn dibynnu ar risg y claf. Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwnaethom nodi y gwelwyd yr holl gleifion yn eu hystafelloedd gwely a bod eu drysau ar agor. Dywedodd y cleifion wrthym fod staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas yn gyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cadw gwybodaeth am y cleifion yn gyfrinachol yn swyddfeydd y wardiau.

Gwybodaeth i gleifion a'u cydsyniad

Roedd gan yr ysbyty ddatganiad o ddiben ysgrifenedig a chanllaw gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i gleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Gwelsom bosteri eirioli oedd yn darparu manylion cyswllt ynglŷn â sut i gael mynediad at y gwasanaeth. Roedd gwybodaeth eirioli a thystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ynghyd â gwybodaeth am y broses gwyno, a sut i godi cwyn, hefyd yn cael eu harddangos.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi ymdrechu i gysylltu â'r gwasanaeth eirioli ar ran y bobl ifanc a oedd wedi mynegi pryderon nad oedd y gwasanaeth eirioli wedi bod yn cysylltu â nhw pan ofynnwyd amdano. Roedd cofnodion yn nodiadau'r cleifion yn cadarnhau y byddai staff yn mynd ar drywydd y ceisiadau hyn ar ran y cleifion.

Oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â deddfwriaeth yn ymwneud â COVID-19, nid oedd y gwasanaeth eirioli yn ymweld â'r cleifion mwyach. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn gallu cysylltu â chynrychiolydd o'r

gwasanaeth eirioli statudol naill ai dros y ffôn neu drwy wneud apwyntiad i siarad â chynrychiolydd a byddai hyn yn cael ei hwyluso drwy alwad fideo.

Roedd ystafell synhwyrdd¹ ar gael ar Ward Ebwy, a all fod o fudd i glaf sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anabledd dysgu yn yr ysbyty. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw fersiynau hawdd eu deall neu Saesneg clir o ddogfennau ar gyfer y cleifion, ond dywedwyd wrthym fod y rhain ar gael ac y gellid eu hargraffu pan fo angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall i'r cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion ar y wardiau, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â'r cleifion yn effeithiol. Roedd staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Fodd bynnag, mewn cyfarfodydd a fynychwyd gan rai cleifion gyda'r tîm amlddisgyblaethol, defnyddiwyd iaith feddygol, ac nid addaswyd lleferydd i'w gwneud yn hawdd i'r cleifion ymgysylltu neu ddeall yn llawn.

Siaradodd y staff â'r bobl ifanc ynglŷn â'u hymgysylltiad, eu cydymffurfedd a'u cymeriant deietegol yn hytrach na gofyn iddynt mewn iaith gyfarwydd sut yr oeddent yn teimlo bod eu gofal yn mynd, neu a oedd ganddynt unrhyw bryderon neu eisiau newid unrhyw beth yn ymwneud â'u gofal.

Mae'n bwysig bod y bobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ynglŷn â'u gofal a bod y geiriau a'r arddull cyfathrebu a ddefnyddir gan y tîm amlddisgyblaethol yn galluogi'r person ifanc i gael dealltwriaeth lawn a rhannu sut mae'n teimlo.

Yn ogystal, yn ystod cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, gwelsom fod diffyg trafod a dadlau. Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn cyfrannu at drafodaethau

¹ Mae ystafell synhwyrdd yn ystafell arbennig sydd wedi'i dylunio i ddatblygu synnwyr unigolyn, fel arfer trwy oleuadau arbennig, cerddoriaeth a gwrthrychau. Gellir ei defnyddio fel therapi i blant â sgiliau cyfathrebu cyfyngedig.

a bod pob barn yn cael ei hystyried a'i thrafod wrth wneud penderfyniadau pwysig ar lefel risg ac anghenion claf. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd mai ychydig iawn o ymgysylltu a gânt â'r tîm uwch-reolwyr ac mai'n anaml y byddant yn eu gweld ar y wardiau.

Dylai'r darparwr cofrestredig annog y staff i leisio'u barn yn ystod cyfarfodydd. Dylid annog trafodaethau proffesiynol gyda phob aelod o staff i sicrhau bod pob barn a safbwynt yn cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried. Yn ogystal, dylai'r tîm amlddisgyblaethol a chyfarwyddwyr yr ysbyty fyfyrto ar y sylwadau a wnaed gan staff ac ystyried sut y gallant fod yn fwy presennol ar y wardiau i ymgysylltu â'r staff a'u cynorthwyo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod y tîm amlddisgyblaethol yn cyfathrebu â'r bobl ifanc gan ddefnyddio iaith sy'n hawdd ei deall
- Bod y tîm amlddisgyblaethol yn cynnal trafodaethau ystyrlon gyda'r claf ac yn cynnwys y claf yn y trafodaeth
- Bod y tîm amlddisgyblaethol a chyfarwyddwr yr ysbyty yn treulio mwy o amser ar y wardiau

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau unigol ei hun a oedd yn cynnwys sesiynau unigol ac mewn grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty a hefyd yn y gymuned pan oedd yr awdurdodiad gofynnol ar waith.

Siaradodd staff a'r cleifion yn ffafriol iawn am y gweithgareddau a'r tîm therapi galwedigaethol. Roedd rhai o'r bobl ifanc hefyd wedi ennill cymwysterau addysgol yn ystod eu hamser yn yr ysbyty.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp o fewn yr ysbyty.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisiâu a systemau sefydledig yr ysbyty yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal. Roedd papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir i gadw'r cleifion yn yr ysbyty.

Oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â deddfwriaeth COVID-19, nid oedd ymwelwyr yn gallu mynd i'r wardiau yn yr ysbyty. Fodd bynnag, gallai rhai cleifion gwrdd â theulu a ffrindiau ar dir yr ysbyty. Gallai'r holl gleifion gadw cysylltiad â theulu a ffrindiau dros alwadau ffôn a fideo.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cyfarfodydd ac arolygon cleifion rheolaidd er mwyn caniatáu i'r cleifion roi adborth ar ddarpariaeth gofal yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i hysbysu perthnasau a gofalwyr ar sut i roi adborth. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion diweddar a chynlluniau gweithredu yn dangos sut roedd yr ysbyty yn gweithredu gwelliannau a newidiadau yn seiliedig ar ganlyniad yr arolwg cleifion.

Roedd polisi a gweithdrefn cwynion ar waith. Roedd y polisi yn darparu strwythur ar gyfer delio â'r holl gwynion o fewn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod unigolyn annibynnol wedi'i aseinio i ymchwilio i gwynion a chymerwyd camau yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Roedd ystafelloedd clinigol yn anhrefnus iawn ac yn flêr ac nid oedd archwiliadau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Gwelsom feddyginiaeth wedi dyddio ac nad oedd rhai meddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir.

Nid oedd y dogfennau cynllun gofal a welsom wedi'u cwblhau gyda manylion penodol i gofnodi anghenion clinigol a therapiwtig pob claf unigol yn gywir. Nid oes gan y darparwr cofrestredig ddigon o weithdrefnau archwilio ansawdd cofnodion cleifion i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau'n ddigon manwl, ac i wella cofnodion, gofal ac arferion clinigol.

Yn ogystal, rhaid i'r darparwr cofrestredig wella'r broses o llenwi a dadansoddi ffurflenni digwyddiadau a sicrhau bod yr holl staff yn gallu llenwi'r ffurflenni.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gellir diogelu maes parcio'r ysbyty drwy giât dan glo a cheir mynediad drwy'r intercom ar gyfer ymwelwyr neu ffob allwedd electronig i staff. Mae hyn er mwyn atal pobl heb awdurdod rhag ceisio mynd i mewn i'r adeilad. Fodd bynnag, roedd y giât ar agor ar noson gyntaf yr arolygiad ac roedd y tîm arolygu yn gallu mynd i'r maes parcio'n hawdd.

Roedd yn ofynnol i ymwelwyr fynd i mewn i'r ysbyty trwy dderbynfa a chofrestru wrth gyrraedd. Trefnwyd yr ysbyty dros ddau lawr. Roedd mynediad gwastad i'r brif fynedfa a'r llawr daear gyda liff ar gael i ddarparu mynediad i'r llawr cyntaf. Roedd y trefniadau hyn yn galluogi'r cleifion ac ymwelwyr, gan gynnwys y rhai ag anawsterau symudedd, i gael mynediad diogel a hawdd i'r uned. Roedd mynediad drwy'r ysbyty wedi'i gyfyngu am resymau diogelwch.

Bydd y cynllun yn cynnwys **adeiladu** llwybr troed newydd yn darparu cysylltedd o gefnffordd yr A40 i mewn i Heol y Capel. Er mwyn helpu i gyflawni'r cynllun hwn, hoffem drefnu cyfarfod safle cyn gynted ag sy'n bosibl i chi. Byddwn felly, yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu â ni drwy e-bost neu'r rhifau ffôn a nodir uchod fel y gallwn drefnu cyfarfod i drafod y cynllun.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, wrth fynd ar daith o amgylch Ward Ebwy, nid oedd y ffob allwedd electronig i fynd i mewn i'r ward yn gweithio'n iawn. Sweipiodd yr aelod o staff yr allwedd sawl gwaith cyn i ni gael mynediad i'r ward. Dywedodd yr aelod o staff wrthym fod hyn yn digwydd weithiau. Mae'n bwysig bod pob ffob allwedd electronig yn gweithio'n gywir ac yn ddibynadwy fel y gall staff fynd i mewn i fannau diogel yn ddi-oed yn ystod argyfwng.

Dywedodd staff wrthym fod y lifft wedi torri yn Ward Ebwy. Roedd gan rai cleifion yn Ward Ebwy anghenion symudedd ychwanegol ac roedd defnyddio'r grisiau yn anodd iddynt. Mae'n bwysig trwsio'r lifft er mwyn sicrhau bod y cleifion neu ymwelwyr yn gallu defnyddio'r lifft os oes angen. Yn ogystal, gwnaethom nodi bod yr uned aerdymheru yn yr ystafell dawel yn Nhŷ Seren wedi torri.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg cyfredol ar gyfer pwyntiau clymu ar waith. Nododd y rhain bwyntiau clymu posibl a pha gamau a gymerwyd i gael gwared arnynt neu eu rheoli.

Roedd archwiliadau wythnosol o gyfarpar dadebru ar waith. Roedd y staff wedi nodi pryd y gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod yr offer ar gael ac yn gyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod giât yr ysbyty bob amser dan glo
- Bod yr holl ffobiau allweddi electronig i gael mynediad i'r wardiau yn gweithio'n gywir
- Bod y lifft sydd wedi torri yn Ward Ebwy wedi'i atgyweirio
- Bod yr uned aerdymheru yn Nhŷ Seren wedi cael ei thrwsio

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ystyriodd y tîm arolygu amgylchedd yr ysbyty yn ystod taith o amgylch yr ysbyty ar y noson gyntaf a'r dyddiau canlynol o'r arolygiad. Daeth arsylwadau'r arolygwyr i'r casgliad nad oedd amgylchedd glân yn cael ei ddarparu ym mhob ward ac yn yr ardaloedd i'r staff. Roedd y rhesymau am hyn fel a ganlyn:

- Nodwyd mat wedi rhwygo â'i du fewn yn dangos yn yr ystafell dawel.
- Roedd gwe pry cop i'w weld yn swyddfa'r nyrs yn Ward Tŷ Seren. Roedd y swyddfa'n anniben, ac roedd bwyd yn cael ei storio yn yr ardal hon.
- Gwe pry cop ar y nenfwd a llwch a gweddillion ar silffoedd yn yr ystafell glinigol yn Ward Ebwy.
- Arogl annymunol o'r bin yn yr ystafell storio ar gyfer therapi galwedigaethol yn Ward Ebwy.
- Oergelloedd meddyginiaeth aflan gyda hylifau wedi'u gollwng.
- Roedd arogleuon annymunol yn gyffredin mewn nifer o'r ystafelloedd ymolchi. Rydym yn cydnabod y gallai hyn fod oherwydd defnydd diweddar ond mae diffyg awyru yn yr ystafelloedd hyn yn golygu y gall arogleuon annymunol aros. Roedd y biniau hefyd yn llawn tyweli papur ac mae angen eu gwagio yn amlach.

Roedd yn ymddangos bod systemau archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau a archwiliwyd gennym yn adlewyrchu'r materion a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad fel y nodir uchod. O ganlyniad, yn seiliedig ar y canfyddiadau uchod, byddem yn cwestiynu effeithiolrwydd yr archwiliadau amgylcheddol. Mae angen i'r darparwr cofrestredig wella trefniadau llywodraethu a throsolwg o'r gweithgarwch archwilio hwn drwy oruchwyliaeth neu hapwiriadau i sefydlu a oedd cofnodion yr archwiliadau yn adlewyrchu'r amgylchedd yn gywir.

Roedd dryswch hefyd ymhlith y staff o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym mai'r staff nos sy'n gyfrifol am lanhau a threfnu'r manau clinigol, a dywedodd staff eraill wrthym mai'r staff glanhau neu'r staff dydd sy'n gyfrifol am drefnu a glanhau'r manau clinigol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd dwy o oergelloedd y cleifion yn Ward Tŷ Seren, er eu bod yn lân, yn cynnwys eitemau bwyd agored heb ddyddiadau dod i ben ac roedd grawnfwyd a symudwyd o flychau gwreiddiol hefyd heb ddyddiadau dod i ben. Nid oedd y

cyfarpar a ddefnyddir i gynhesu bwyd y cleifion yn lân ac roedd yn ludiog a llychlyd.

Yn Ward Ebwy, roedd gan gegin y cleifion botel o ddiod hylif yn perthyn i aelod o staff yn yr oergell heb enw arni. Roedd dwy botel o saws hufen iâ heb unrhyw ddyddiadau agor a dwy botel diod feddal heb unrhyw ddyddiadau agor. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod bwydydd yn cynnwys manylion ynghylch pryd yr agorir cynnyrch, y dyddiad defnyddio erbyn ac enw'r claf. Yn ogystal, ni ddylid storio bwyd a diod y staff yn oergelloedd y cleifion.

Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel y gallai'r cleifion olchi eu dillad eu hunain, gyda lefel briodol o gymorth gan y staff yn seiliedig ar anghenion unigol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod Ysbyty Hillview wedi diweddarau polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni gofynion ychwanegol yn sgil pandemig COVID-19.

Mae tymheredd yr holl staff ac ymwelwyr yn cael ei wirio wrth gyrraedd. Mae hylif diheintio dwylo a masgiau wyneb ar gael, ac mae'n ofynnol i'r staff ac ymwelwyr ledled yr ysbyty wisgo'r rhain. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol ac offer glanhau priodol. Roedd gan bob ward fannau o'r neilltu lle, pe bai claf yn dod yn symptomatig, gallai gael ei ynysu a chael nyrsio ataliol yn ei ystafell wely mewn ardal warchoddedig. Nid oedd angen yr un o'r manau hyn ar adeg yr arolygiad.

Roedd cyfathrebu rheolaidd trwy gyfarfodydd a negeseuon e-bost yn sicrhau bod gan bawb y cyngor a chanllawiau diweddaraf ar COVID-19.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod system lywodraethu gadarn ar waith i fonitro a goruchwylio bod archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cwblhau'n gywir
- Bod gan bob un aelod o'r staff ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- Bod bwydydd yn cynnwys manylion ynghylch pryd mae'r cynnyrch yn cael ei agor, y dyddiad defnyddio erbyn ac enw'r claf
- Nad yw eitemau bwyd a diod y staff yn cael eu storio yn oergelloedd y cleifion

Maeth

Roedd y cleifion yn cael eu prydau bwyd yn yr ysbyty. Roedd gan yr ysbyty fwydlen gylchdro bob tair wythnos gydag opsiynau ar gyfer cinio a phrydau gyda'r nos, ac roedd hyn yn cynnwys opsiynau heb glwten a rhai llysieuol. Mae'r fwydlen sy'n cael ei harddangos ger ardal y gegin yn dangos dewis o brydau bwyd.

Roedd byrbrydau a lluniaeth ar gael i'r cleifion hefyd ac roedd gan rai cleifion yn Ward Ebwy fynediad at gyfleusterau i baratoi eu prydau eu hunain. Roedd peiriant diodydd poeth/oer mewn ystafell oddi ar y ward y gallai'r cleifion fynd ati i wneud diod gyda'r staff.

Mae posteri ynghylch bwyta'n iach a phum cam tuag at lesiant yn cael eu harddangos ar y wardiau.

Roedd nifer o'r cleifion yr oedd angen eu bwydo mewn modd nasogastrig (trwy'r trwyn i'r stumog) yn yr ysbyty. Fodd bynnag, yng nghofnodion un claf a welsom, gwnaethom nodi bod y claf yn bwyta prydau bwyd ond bod ei feddyginiaeth yn cael ei rhoi iddo drwy borthiant nasogastrig.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth yng nghynllun gofal y claf i gefnogi'r ymyriad hwn. Yn ogystal, nid oedd unrhyw gyfiawnhad na rhesymeg wedi'u cofnodi ynghylch pam roedd y claf hwn yn cael ei feddyginiaeth drwy fwydo nasogastrig. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl benderfyniadau ynghylch bwydo nasogastrig yn cael eu dogfennu a'u cyfiawnhau.

Yn ogystal, rhaid diweddarau cynllun gofal y claf a chofnodion y cyfarfod pan wnaed y penderfyniad hwn fel bod gan staff yr wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ynghylch pam mae angen y math hwn o ymyriad. Rhaid i'r darparwr cofrestredig allu dangos bod yr holl fesurau eraill llai ymwithiol o roi meddyginiaeth wedi'u rhoi ar waith, a bod y meddyginiaethau a ddefnyddir yn ddiogel i'w rhoi yn y modd hwn ac yn cydymffurfio â chanllawiau meddyginiaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod penderfyniadau i roi meddyginiaeth trwy fwydo nasogastrig yn cael eu dogfennu a'u cyfiawnhau
- Bod manylion y porthiant nasogastrig wedi'u dogfennu yng nghynllun gofal y claf a bod cofnodion lle gwnaed y penderfyniad hwn ar gael i'r staff eu gwirio

- Bod rhoi meddyginiaeth trwy borthiant nasogastrig yn cydymffurfio â chanllawiau meddyginiaeth

Rheoli meddyginiaethau

Roedd yr ystafelloedd clinigol ar Ward Tŷ Seren a Ward Ebwy yn flêr ac anhrefnus iawn. Nid oedd cypwrddau yn y ddau glinig wedi cael eu gwagio ers peth amser ac roedd y silffoedd yn llychlyd ac yn fudr.

Gwelsom un aelod o staff yn ceisio dod o hyd i gysylltiad nasogastrig ac, oherwydd y cwpwrdd anhrefnus, ni allai'r aelod o staff ddod o hyd i'r eitem hon yn hawdd. Yn ogystal, canfuom fatris, amlenni yn cynnwys arian parod, a chlipwyr ewinedd yn cael eu storio yn y cwpwrdd cyffuriau ar Ward Ebwy.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, roedd yr oergell feddyginiaeth yn Ward Tŷ Seren heb ei chloi ac roedd tystiolaeth o lwch a hylif yn gollwng yn yr oergell. Roedd yr oergell yn cynnwys meddyginiaeth lorasepam a oedd wedi dod i ben ac a oedd â sticer oren yn nodi ei bod wedi'i hagor ar 26 Mehefin 2021 a'i bod wedi dod i ben ar 26 Medi 2021.

Gwelsom hefyd fod y feddyginiaeth a oedd wedi dod i ben a ganlyn yn cael ei storio yn y cwpwrdd meddyginiaeth ar Ward Tŷ Seren: tabledi Tegretol a ddaeth i ben ar 2 Chwefror 2021. Ymdriniwyd â'r mater hwn hefyd o dan ein proses wella ar unwaith.

Roedd y meddyginiaethau canlynol yng nghlinig Tŷ Seren wedi dod i ben:

- Eli Cavilon a ddaeth i ben ar 21 Gorffennaf 2021
- Asid Fusidic a gafodd ei agor ar 24 Gorffennaf 2021. Mae gwybodaeth y gweithgynhyrchwyr ar y blwch yn nodi ei fod yn dod i ben bedair wythnos ar ôl agor tiwb
- Flaminal Forte a ddaeth i ben ym mis Medi 2021
- Eli calamin a ddaeth i ben ar 22 Hydref 2021

Yn ogystal â'r uchod, roedd dau fin dychwelyd meddyginiaethau gwyrdd wedi'u storio y tu ôl i fin gwastraff clinigol o dan sinc yn ystafell glinig Tŷ Seren. Roedd un bin yn ddyddiedig 30 Rhagfyr 2020 ac roedd yn llawn meddyginiaeth ond heb ei gau. Llwyddodd aelod o'r tîm arolygu i gasglu dau sribed o feddyginiaeth o'r bin; roedd y ddau fin wedi'u gorchuddio â llwch ac yn ludiog. Roedd deunyddiau

glanhau hefyd yn cael eu storio ar silffoedd yn yr ardal glinigol ochr yn ochr â meddyginiaethau.

Yn ardal glinigol Ward Ebwy, nodwyd y materion canlynol:

- Blwch hypoglycemig a ddaeth i ben ar 30 Tachwedd 2020
- Gefeiliau wedi dyddio
- Hen daflenni presgripsiwn heb eu ffeilio
- Hen gofnodion cleifion a gwaith papur amrywiol arall wrth ochr yr oergell
- Roedd blwch o sylwedd golchi llygaid gyda photel ar agor nad oedd yn cynnwys dyddiad ac â chaead diffygiol

Gwnaethom adolygu sampl o siartiau meddyginiaeth yn y ddwy ystafell glinigol a chanfod eu bod i gyd yn gywir ac eithrio Ward Tŷ Seren; roedd 15 cofnod ar goll rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2021 yn y llyfr cyffuriau a reolir gyda thystiolaeth o un llofnod yn unig.

Mae'r materion a amlygwyd uchod ynghylch meddyginiaeth a'r arsylwadau bod yr ystafelloedd clinigol yn anhrefnus ac yn flêr yn amlygu diffyg archwiliadau cadarn ar waith. Fel y crybwyllwyd yn adran amgylcheddol yr adroddiad hwn, mae'n ymddangos bod dogfennau archwilio clinigol ar waith. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r tîm arolygu yn gywir pan adolygwyd yr amgylchedd a dogfennau a archwiliwyd yn flaenorol gan y darparwr.

Amlygodd y ffeithiau uchod nad oes unrhyw drosolwg, goruchwyliaeth na hapwiriadau llywodraethu i sefydlu a oedd cofnodion yr archwiliadau yn adlewyrchu'r feddyginiaeth a'r amgylchedd clinigol yn gywir. Mae dyddiadau dod i ben y feddyginiaeth yn awgrymu nad oedd archwiliadau cywir yn yr ysbyty wedi'u cwblhau ers peth amser.

Mae'r ysbyty'n defnyddio system ar gyfer archebu meddyginiaeth, a gwelsom fod meddyginiaeth ar gael at ddefnydd brys, ond roedd hyn i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2021. Dywedwyd wrthym, oherwydd bod yr ysbyty wedi'i ddatgan fel un 'mewn digwyddiad' oherwydd achosion positif o COVID-19, nid oedd y fferyllfa allanol bellach yn ymweld yn wythnosol i oruchwyllo unrhyw ddefnydd o feddyginiaeth a chynnal unrhyw archwiliadau. Yn absenoldeb archwiliadau fferyllfa allanol, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau ystafelloedd clinigol yn cael eu cwblhau yn ôl yr amllder gofynnol.

Roedd yna dystiolaeth bod gwiriadau tymheredd rheolaidd o'r oergell feddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd argymelledig y gwneuthurwr. Roedd gan staff fynediad at yr holl bolisiâu rheoli meddyginiaethau perthnasol yn yr ysbyty ynghyd â Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF).^{*2} Roedd y polisi rhoi cyffuriau hefyd ar gael i staff yn y ddwy ystafell glinig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod yr ystafell glinigol yn drefnus, yn lân ac yn daclus
- Y gwaredir meddyginiaeth sydd wedi dod i ben
- Bod system lywodraethu gadarn ar waith i fonitro a goruchwyllo bod archwiliadau clinigol a meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir
- Y cwblheir archwiliadau ystafelloedd clinig yn ôl yr amllder gofynnol
- Bod y llyfr cyffuriau a reolir yn cael ei gwblhau'n gywir heb unrhyw gofnodion ar goll
- Bod goleuadau yn yr ystafell glinigol ar Ward Ebwy yn cael eu gwella

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan yr ysbyty weithiwr cymdeithasol penodedig. Dywedodd y staff wrthym fod cysylltiadau da â thîm diogelu oedolion yr awdurdod lleol. Er bod proses ar waith ar gyfer adrodd am bryderon diogelu, yn ystod cyfweiliad â chlaf, datgelwyd bod gweithredoedd y staff wedi effeithio arni o ran teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn ystod ymyriadau corfforol roedd yn teimlo wedi'i brawychu gan weithredoedd y staff a'r modd yr oeddent yn cyfathrebu â hi. Fe wnaethom uwchgyfeirio'r pryderon hyn. Ymdriniwyd â hyn hefyd o dan ein proses wella ar unwaith.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Mae archwiliadau wythnosol o offer dadebru yn cael eu cynnal, ac roedd y staff yn cofnodi pan oedd y rhain wedi digwydd i sicrhau bod yr offer yn bresennol ac

^{*2} Cyfeirlyfr fferyllol yw Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain sy'n cynnwys sbectrwm eang o wybodaeth a chyngor ar ragnodi a ffarmacoleg, ynghyd â ffeithiau penodol a manylion am feddyginiaethau unigol.

o fewn dyddiad. Fodd bynnag, canfuom 'fag cydio' brys ac ocsigen wedi'u storio ar wal y tu ôl i ddrws y swyddfa yn Nhŷ Seren a oedd yn llychlyd ac roedd y llyfryn ar gyfer rhestr wirio offer wedi gwisgo â thudalennau wedi'u treulio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyfeisiau meddygol yn lân a bod y llyfryn rhestr wirio yn cael ei newid.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rydym wedi nodi meysydd i'w gwella drwy gydol yr adroddiad hwn y mae angen gweithredu ystyrion arnynt er mwyn sicrhau y darperir gofal diogel a chlinigol effeithiol yn Hillview.

Mae arolygiadau blaenorol AGIC yn parhau i amlygu materion tebyg gyda'r darparwr. Mae'r gwasanaeth yn tueddu i wella yn dilyn arolygiad ond ni chaiff y gwelliannau eu cynnal yn y tymor hir. Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddangos y gall wneud gwelliannau a chynnal gwelliannau i sicrhau bod y cleifion yn yr ysbyty yn cael gofal diogel, cyson ac effeithiol.

Fel y nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol, mae gan Ysbyty Hillview brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty; roedd y rhain yn parhau i fod ar waith ar adeg yr arolygiad hwn, ond mae angen gwella goruchwyliaeth, gwaith monitro a chydymffurfedd â'r prosesau hyn.

Mae nifer yr ataliadau yn parhau i fod yn uchel, hyd yn oed wrth ystyried anghenion uchel y boblogaeth cleifion. Dywedodd y staff wrthym fod ataliaeth yn ddigwyddiad dyddiol oherwydd natur y grŵp cleientiaid. Roedd gwelliannau wedi'u gwneud o ran cofnodi a dehongli data ataliaeth yn dilyn arolygiadau blaenorol. Fodd bynnag, mae angen gwlliant o hyd o ran manylion y digwyddiad a pham y dewisir math penodol o ataliadau dros ymyriadau eraill llai cyfyngol.

Yn ystod cyfarfodydd a fynychwyd gennym, siaradodd staff am y defnydd o ataliadau sy'n digwydd pan fydd y claf ar wastad ei gefn. Ni chafwyd unrhyw drafodaethau, dadleuon na chwilfrydedd proffesiynol ynghylch pam y defnyddiwyd y math hwn o ataliaeth. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yna ddadansoddiad o ddigwyddiadau ataliadau i nodi'r hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd. Dylai hyn gynnwys pam mae ataliad ar eistedd yn aneffeithiol a pham mae angen ataliad ar y llawr, yn benodol ataliadau gorwedd ar y cefn, y dylid eu defnyddio bob amser pan fetho popeth arall. Gall hyn helpu staff i ddysgu

o ddigwyddiadau ac ataliadau a sicrhau bod ataliadau effeithiol a phriodol yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.

Mewn un set o nodiadau cleifion a archwiliwyd, roedd yr wybodaeth ar y ffurflen atal yn groes i'w gilydd. Roedd yr wybodaeth a gofnodwyd yn dangos bod yr ataliaeth wedi para 30 munud i awr ac, mewn cofnod diweddarach, mae'n nodi bod yr ataliaeth wedi para tri munud. Roedd y ffurflen hon hefyd yn brin o fanylion disgrifiadol. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddata ataliaeth yn cael ei gasglu'n gywir a'i gofnodi'n gywir, a sicrhau bod ffurflenni'n cael eu monitro ac y craffir arnynt yn gadarn.

Ar ffurflen digwyddiad claf arall, lle cafodd claf anaf, roedd yn anodd deall yn union beth oedd wedi digwydd yn ystod y digwyddiad ac roedd diffyg disgrifiad manwl wedi'i gofnodi ar y ffurflen digwyddiad.

Dywedodd rhai o'r staff wrthym nad yw'r staff bob amser yn cwblhau'r ffurflen yn unol â'r gweithdrefnau fel y mae'n ofynnol iddynt wneud. Dywedodd y staff wrthym fod adegau pan fyddant yn llenwi ffurflenni ar gyfer staff sy'n anghyfarwydd â'r ffurflenni. Dywedodd y staff wrthym, oherwydd y niferoedd gormodol o ddigwyddiadau, nad oedd ganddynt amser yn aml i lenwi ffurflenni digwyddiadau o fewn eu diwrnod gwaith.

Roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn gallu darparu tystiolaeth o archwiliadau a dadansoddiadau data o'r ddigwyddiadau. Roedd y dystiolaeth uchod yn amlinellu bod angen gwelliannau pellach, a goruchwyliaeth fwy cadarn dros gofnodion adroddiadau digwyddiadau, a bod angen cwblhau archwiliadau'n gywir.

Mae'n hanfodol bod y staff yn llenwi ffurflenni digwyddiad gyda disgrifiad manwl o'r hyn sydd wedi digwydd. Rhaid darparu hyfforddiant ar gyfer cwblhau'r ffurflenni hyn i'r staff sy'n anghyfarwydd â'r broses. Rhaid i'r darparwr cofrestredig oruchwylio staff yn ymwithiol i sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau wrth lenwi ffurflenni digwyddiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod gwaith monitro, goruchwyliaeth a chydymffurfedd mwy cadarn yn cael ei roi ar waith i reoli risg a diogelwch yn yr ysbyty
- Bod manylion disgrifiadol cofnodi digwyddiadau yn parhau i wella

- Bod y staff sy'n anghyfarwydd â chynnwys ffurflenni digwyddiad yn derbyn hyfforddiant
- Bod cydymffurfedd staff â pholisïau a gweithdrefnau ar gyfer llenwi ffurflenni digwyddiad yn cael ei fonitro
- Bod y staff yn llenwi ffurflenni digwyddiad ar gyfer pob digwyddiad sy'n digwydd yn yr ysbyty

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Yn ystod ein trafodaethau gyda chyfarwyddwr newydd yr ysbyty, rhoddodd enghreifftiau inni o ble mae'n adolygu darpariaeth y gwasanaeth ac yn edrych ar ddatblygu rhai agweddau o'r ysbyty. Mae'r cynlluniau ar gyfer datblygu ardal allanol i'r cleifion yn cynnwys llwybr beicio ac ardal Astroturf. Yn ogystal, roedd cyfarwyddwr yr ysbyty yn edrych i ddatblygu mwy o fannau synhwyraidd.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig ac wedi'u diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod a thorri cyfrinachedd.

Roedd yn anodd dod o hyd i rai dogfennau hyd yn oed gyda chymorth staff. Mae hyn wedi'i ddogfennu yn yr adran cynllunio gofal isod.

Mae gan bob claf basbort gofal 'Dyma Fi', sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol megis pethau y mae'n rhaid i chi eu gwybod i gadw'r claf yn ddiogel, pethau sy'n bwysig, a hoffterau a chasbethau'r claf. Roedd hyn yn dangos bod yr ysbyty'n sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ddealltwriaeth dda o'r wybodaeth a oedd yn bwysig i'r claf.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol tri chlaf ar draws yr ysbyty.

Mae dogfennau a phrosesau ategol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu rheoli dros dro ar hyn o bryd gan gynorthwydd personol cyfarwyddwr yr ysbyty. Mae disgwyl i weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl sydd newydd ei benodi ddechrau ym mis Rhagfyr.

Canfuwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Cod). Roedd systemau archwilio cadarn ar waith ar gyfer rheoli ac archwilio dogfennau statudol. Roedd cofnodion clir o'r cleifion yn cael eu hysbysu o'u hawliau statudol ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod o'u cadw.

Roedd cyfnodau cadw'r cleifion yn cael eu hadolygu o fewn yr amserlenni ym mhaneli adolygu rheolwyr yr ysbytai. Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn cael eu gwahodd i apelio drwy broses ffurfiol a'u bod yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i wneud hynny drwy swyddfa gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl, gwasanaethau eirioli a'r tîm amlddisgyblaethol, a ddarparodd adroddiadau cynhwysfawr, wedi'u hysgrifennu'n dda ar gyfer yr apeliadau hyn.

Roedd Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl a phaneli adolygu rheolwyr yr ysbyty wedi'u cynnal bron drwy gydol y pandemig.

Er bod dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, nid oedd unrhyw ddalen flaen gyda manylion y cleifion, a fyddai'n gwneud unrhyw archwiliad neu adolygiad yn y dyfodol yn haws ei gwblhau. Byddem yn cyngori bod yr ysbyty yn cynnwys dalen flaen yn cynnwys manylion y claf.

Mae gan bob aelod o staff hyfforddiant yn y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rhan o'r rhaglen sefydlu ac mae hyfforddiant iechyd meddwl penodol yn rhan o fodiwlau hyfforddiant gorfodol y staff.

Ar y cyfan, roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u trefnu'n dda, ond gwnaethom nodi nad oedd ffurflenni absenoldeb adran 17 yn dogfennu unrhyw gyfranogiad gan y cleifion.

Roedd archwiliad o ddogfennau Ddeddf Iechyd Meddwl pob claf wedi'i gwblhau rhwng Mehefin ac Awst, ond nid oedd crynodeb archwilio ar gael i amlygu unrhyw faterion neu gamau pellach yr oedd angen eu cymryd.

Roedd tystiolaeth bod galluedd meddyliol i gydsynio wedi'i asesu ar adeg derbyn, ond roedd ar ffurf cofnod parhaus yn y nodiadau clinigol. Nid oedd tystiolaeth o asesiad galluedd mwy ffurfiol gyda meini prawf clir yn cael ei gwblhau (gweler Canllaw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NG108)).

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau:

- Bod ffurflenni absenoldeb adran 17 yn dogfennu cyfranogiad y cleifion
- Bod crynodebau archwilio cofnodion ar gael

- Bod asesiadau ar sail tystiolaeth ar gyfer galluedd wedi'u cynnwys yng nghofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o bedwar claf.

Nid oedd cofnodion cynlluniau gofal yn gynhwysfawr, ac roedd yn anodd darganfod lleoliadau cynlluniau gofal yn yr ysbyty. Hyd yn oed gyda chymorth staff, ni allai rhai aelodau o staff ein cyfeirio at y cynlluniau gofal a'r wybodaeth yr oedd eu hangen arnom.

Roedd ceisio dilyn gofal a thriniaeth unigolyn yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser ar draws y ffynonellau unigol. Byddai hyn yn peri pryder arbennig i aelod o staff asiantaeth sy'n mynychu'r ward am y tro cyntaf, y byddai'n anodd iawn iddo ddeall ymddygiadau'r cleifion a'r camau priodol i'w cymryd i'w rheoli.

Amlygodd yr anawsterau a gafodd y tîm arolygu gyda dogfennau cynlluniau gofal cleifion y byddai'n anodd iawn i staff anghyfarwydd ddod o hyd i'r wybodaeth hanfodol sydd ei hangen arnynt i ofalu am y cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.

O'r cynlluniau gofal a adolygwyd gennym, gwnaethom nodi rhai meysydd yr oedd angen eu gwella:

- Nid oedd cynlluniau gofal bob amser yn dangos cyfranogiad y claf nac yn cofnodi barn y claf yn glir.
- Roedd y cynllun lleihau risg ar gyfer claf y gwyddys ei fod yn curo'i ben yn brin o fanylion ynghylch rheoli'r math hwn o ymddygiad heriol. Yn hytrach, cyfeiriodd y darlennydd at brotocol curo pen cyffredinol nad yw'n rhoi arweiniad penodol i'r staff ynghylch pryd a sut y dylent ymyrryd pan fydd ymddygiad curo pen yn dechrau ar gyfer y claf penodol hwn.
- Nid oedd yn glir a oedd risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd neu a oedd cynlluniau rheoli'n cael eu diweddarau ar ôl digwyddiadau.
- Nid oedd tystiolaeth o lofnodi cynlluniau gofal.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cynlluniau gofal yn cael eu hasesu a'u monitro'n rheolaidd.

Yn ogystal â'r uchod, nid oedd gan glaf a oedd wedi dychwelyd o'r ysbyty gynllun gofal ar waith ar ôl rhyddhau o'r ysbyty ynghylch sut y dylid rheoli'r anaf. Nid oedd tystiolaeth bod y Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu symudedd cyfyngedig.

Nid oedd unrhyw fanylion am unrhyw apwyntiadau ysbyty yn y dyfodol. Amlygodd archwiliad pellach o nodiadau cyfoes y claf hwn dri chyfnod o drawiad anepileptig. Ni allem ddod o hyd i unrhyw nodiadau ychwanegol i bennu pryd na sut mae'r trawiadau anepileptig hyn wedi digwydd. Nid oedd tystiolaeth bod unrhyw asesiadau iechyd corfforol yn cael eu cynnal ar y claf hwn ar gyfer y cyfnodau trawiad.

Gwelodd y tîm arolygu'r claf hwn fel petai'n llewygu ym maes parcio'r ysbyty. Yn dilyn y digwyddiad hwnnw, adolygwyd y nodiadau gennym. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw arsylwadau corfforol, dim nodiadau i gyfarwyddo sut i reoli digwyddiadau llewygu yn y dyfodol, ac ni chrybwyllwyd y digwyddiad hwn mewn unrhyw nodiadau cyfoes.

Mewn set arall o nodiadau a archwiliwyd, gwelsom fod claf wedi bod yn gysylltiedig â nifer sylweddol o ddigwyddiadau ers iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun gofal wedi nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun gofal a thriniaeth yn dilyn digwyddiadau. Mae adolygiad wythnosol y cynllun gofal rhwng Mehefin 2021 ac Awst 2021 yn nodi bod y 'cynllun gofal wedi'i adolygu ac yn parhau i fod yn berthnasol'.

Yn ogystal, roedd asesiad risg y claf uchod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol. Fe'i dogfennir rhwng Ionawr ac Awst 2021: "Mae'r claf yn dangos ymddygiad ymosodol tuag at eraill". Fodd bynnag, nododd yr asesiad risg o Ebrill – Tachwedd 2021, "Dim risg wedi'i gofnodi i'w hunan". O ystyried nifer y digwyddiadau yr oedd y claf hwn wedi bod yn gysylltiedig â nhw, dylid bod wedi datblygu cynllun gofal yn canolbwyntio ar sut i reoli'r ymddygiadau i gefnogi'r claf a hefyd y staff a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiadau.

Diweddarwyd yr asesiad risg diweddaraf i adlewyrchu'r ffaith bod y claf yn cael syniadau am hunanladdiad, ond nid oeddem yn gallu dod o hyd i gynllun ar gyfer sut yr oedd staff yn rheoli'r pryder hwn.

Yn ogystal, roedd cofnod yn nodiadau'r claf uchod yn ymwneud â chlaf gwahanol yr ailadroddir ei enw ddwywaith yng nghofnod y claf. Mae hyn yn torri gofynion llywodraethu gwybodaeth ac mae'n dangos diffyg sylw gan staff wrth gofnodi gwybodaeth mewn nodiadau.

Amlygodd cofnodion pellach a welwyd nad oedd cofnodion rhai cleifion yn dangos bod asesiadau corfforol yn cael eu cynnal. Yng nghofnod un claf,

adolygwyd y siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol³ sy'n nodi risgiau salwch difrifol. Roedd adegau pan gofnodwyd sgorau o dri ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i hyn gael ei uwchgyfeirio na'i adrodd.

Mae'r holl faterion uchod yn amlygu ymhellach fod yr archwiliadau sy'n cael eu cynnal yn ddiffygiol. Er mwyn gwella gofal a diogelwch y cleifion, mae'n hanfodol bod archwiliadau cywir, cyson a chadarn yn cael eu cynnal er mwyn i'r ysbyty allu asesu, gwerthuso a gwella gofal y cleifion ac arferion staff.

Ymdriniwyd â'r materion hyn hefyd o dan ein proses wella ar unwaith.

³ nodi cleifion pediatrig sydd mewn perygl o ddirywiad clinigol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Drwy gydol yr arolygiad, dangosodd y staff eu hymrwymiad i ddarparu gofal i'r cleifion yn yr ysbyty. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld y cynnydd yr oedd y cleifion wedi'i wneud ers ein harolygiad diwethaf.

Mae angen gwella'r prosesau llywodraethu ac archwilio yn yr ysbyty o hyd er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth gadarn o ansawdd a diogelwch yn yr ysbyty.

Mae nifer o ganfyddiadau'r arolygiad hwn yn cael eu hailadrodd o arolygiadau blaenorol. Mae hyn yn dangos methiant i gynnal gwelliannau a deilliannau dysgu o arolygiadau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae arwyddocâd y meysydd i'w gwella a nodir yn yr adran "Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol" o'r adroddiad hwn yn amlygu'r angen am welliant mewn archwilio a llywodraethu mewn perthynas â llawer o agweddau o'r amgylchedd gofal, diogelwch y cleifion, cynllunio gofal, a chofnodi a monitro digwyddiadau.

Roedd cyfarwyddwr newydd i'r ysbyty wedi'i benodi ac, yn ystod trafodaethau gyda chyfarwyddwr newydd a phresennol yr ysbyty, fe wnaethant barhau i fynegi bod yr archwiliadau cywir ar waith yn yr ysbyty. Er bod rheolwyr yr ysbyty wedi mynegi barn bod yr archwiliadau cywir ar waith yn yr ysbyty, mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod angen cryfhau effeithiolrwydd ac ehangder yr archwiliadau hyn. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal o gadernid a chywirdeb archwiliadau'r sefydliad mewn perthynas â chynlluniau gofal, yr amgylchedd, data digwyddiadau ac ataliaeth, meddyginiaeth, a'r ystafelloedd clinigol.

Mae angen adolygiad i ystyried y materion a nodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, ni allem fod yn sicr bod systemau archwilio'r darparwr cofrestredig yn asesu ac yn monitro ansawdd yn effeithiol, na'u bod yn gadarn o ran eu gallu i nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n ymwneud ag iechyd, llesiant a diogelwch y cleifion. Ymdriniwyd â'r materion hyn hefyd o dan ein proses wella ar unwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau archwilio a llywodraethu yn gwella ar draws holl feysydd y sefydliad.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau sefydledig ar waith i ddelio â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty, ond mae angen gwelliannau sylweddol.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd i staff o gwynion a digwyddiadau yn yr ysbyty a'r sefydliad ehangach. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo diogelwch cleifion a gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol

Gwelsom waith tîm da ar yr wardiau. Roedd yn gadarnhaol clywed yr effaith a budd sylweddol a oedd disgyblaethau, gan gynnwys seicoleg, therapi galwedigaethol a chydlynwyr gweithgareddau, yn eu cael ar y grŵp cleifion.

Gwnaethom hefyd nodi rhai gwelliannau gyda'r cleifion ers ein hymweliad diwethaf, a oedd yn braf eu gweld ac yn glod i'r staff a fu'n ymwneud â'u gofal.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff yn yr ysbyty a chanfuom fod cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddi er mwyn i'r staff dderbyn diweddariadau amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau a manylion cydymffurfedd staff unigol i'r uwch-reolwyr.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd lefelau staffio yn ymddangos yn briodol i gynnal diogelwch y cleifion yn yr uned ysbyty ar adeg ein harolygiad. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yna

gydlynnydd nos penodedig sy'n goruchwylio'r ysbyty ar bob shifft nos. Roedd y rôl hon yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth i staff y wardiau. Roedd y cydlynnydd nos y gwnaethom gyfarfod ag ef ar noson gyntaf yr arolygiad yn gallu darparu gwybodaeth am staff yr ysbyty a'r grŵp cleifion.

Esboniodd aelodau o staff y prosesau recriwtio oedd ar waith yn Hillview. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod recriwtio'n digwydd drwy broses agored a theg. Cyn ceisio geirdaon am staff, cynhaliwyd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gwiriwyd eu cymwysterau proffesiynol. Cadarnhaodd hefyd fod prosesau priodol ar waith i wirio sgiliau staff asiantaeth cyn iddynt ddechrau gweithio yn yr ysbyty.

Roedd staff newydd eu penodi yn ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni a buont yn siarad â ni am y systemau sefydlu sydd ar waith yn yr ysbyty.

Yn ystod cyfweiliadau â'r staff, soniodd y staff am heriau o ran caffael niferoedd digonol o staff benywaidd i fodloni ceisiadau am dîm gofal benywaidd.

Yn ystod trafodaethau ag uwch-reolwyr yn Hillview, roeddent yn cydnabod bod dibyniaeth ar ddefnyddio staff asiantaeth. Roedd yn anodd recriwtio a chadw staff oherwydd anghenion cymhleth y grŵp cleifion ac ardal ddaearyddol yr ysbyty. Dywedwyd wrthym y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud bob amser i geisio sicrhau y cydymffurfir â gofynion y cleifion o ran rhywedd y staff.

Mae nifer fawr o swyddi gwag yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod swyddi dirprwy reolwr ward ychwanegol wedi'u hysbysebu, bod swydd wag yr arweinydd clinigol wedi'i hysbysebu, a bod cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar gyfer swydd wag y rheolwr ward. Roedd recriwtio parhaus ar waith ar gyfer gweithwyr cymorth iechyd a fyddai'n cefnogi'r system staff banc.

Dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod yn ceisio llenwi swyddi gwag a recriwtio staff parhaol i leihau'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth. Mae angen i'r rheolwyr barhau â'u rhaglen recriwtio i sicrhau bod lefelau staffio digonol ar waith i ddarparu amgylchedd diogel a gofal cyson i'r cleifion.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith i staff godi unrhyw bryderon, ac roedd hwn wedi'i arddangos yn ystafell y staff. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i staff hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'n barhaus:

- Bod gofynion staffio yn diwallu anghenion y grŵp cleifion
- Bod swyddi gwag yn cael eu llenwi
- Bod y gwasanaeth yn adolygu ac yn gwella'r trefniadau recriwtio a chadw staff presennol er mwyn cynnal grŵp staffio sefydlog i'r cleifion

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth i fonitro cydymffurfedd â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes argymhelliad penodol wedi'i wneud o ran hyn, y disgwyl yw y bydd tystiolaeth o welliant nodedig yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad nesaf.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Fel arfer, mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn arolygiadau dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid amlygwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad. Mae'r cynllun gwella ar unwaith ynghlwm isod.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Iechyd Meddwl Hillview

Dyddiad yr arolygiad: 15 – 17 Tachwedd 2021

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob rhan o'r ysbyty yn cael ei glanhau'n drylwyr a'i thacluso a bod tystiolaeth o gydymffurfedd parhaus â safonau atal a rheoli heintiau.</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 26 (2) (a) a (b)</p>	<p>Ar hyn o bryd, mae'r tîm cadw tŷ yn cynnwys pump aelod o staff sy'n gweithio dros y saith diwrnod, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau. (<i>Gweler yr amserlen lanhau a'r rota sydd wedi'u cynnwys.</i>) Er mwyn rhoi tystiolaeth bellach a chefnogi llywodraethu cadarn o'r tîm glanhau, mae archwiliadau ystafell ymolchi pellach wedi'u rhoi ar waith.</p> <p>Ar ôl i'r staff dydd adael, mae'r tîm nos yn glanhau'r wardiau, yn gwagio'r biniau, ac yn diheintio'r holl ardaloedd traffig uchel – gwneir hyn unwaith y bydd y ward wedi setlo ac mae'r bobl ifanc yn y gwely.</p> <p>Ar adeg yr arolygiad, nodwyd bod y biniau ystafell ymolchi yn <i>“llawn tyweli papur”</i>; mae'r rhain yn cael eu gwagio trwy gydol y dydd ac fel y nodir uchod yn y nos. Mae'r biniau'n fach ac yn llenwi'n gyflym gyda'r tyweli papur a ddefnyddir i sychu dwylo. Mae'r biniau wedi'u newid ac mae arferion glanhau pellach wedi'u rhoi ar waith.</p> <p>Nododd adroddiad tystiolaeth AGIC ei bod <i>“yn ymddangos fel pe bai gwaed sych wedi staenio”</i> (t.1) ar <i>“cwpwrdd teledu ar Ward Tŷ Seren”</i>. Yn union cyn i AGIC gyrraedd y safle a chael mynediad i'r wardiau, bu sawl digwyddiad ar y wardiau, ac roedd un o'r rhain yn cynnwys person yn curo'i ben ar yr uned deledu yn Nhŷ Seren. Mae proses ar waith i staff lanhau mannau lle mae gwaed yn bresennol oherwydd bod y person ifanc yn hunan-niweidio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac yn ddiogel ar ôl digwyddiad. Mae'r modd angenrheidiol i gwblhau'r dasg hon ar bob ward.</p>
--	-----------------	----------------------------------	--

			<p>Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p>
--	--	--	---

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod oergelloedd mewn manau clinigol yn cael eu glanhau a'u cloi.</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 15 (3)</p>	<p>Mae'r tîm nyrsio yn ymwybodol mai nhw sy'n gyfrifol am lanhau ystafelloedd y clinig a'r oergelloedd. Mae memoranda yn eu hatgoffa o'r cyfrifoldeb hwn wedi'u hanfon.</p> <p>Yn ogystal, mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y tîm uwch-reolwyr.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lanweithdra a materion clinig.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Mae'r tîm uwch-reolwyr yn parhau i gynnal hapwiriadau ac archwiliadau trylwyr ac ymwithiol i sicrhau cydymffurfedd.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell glinigol yn drefnus a bod unrhyw feddyginiaeth sydd wedi dyddio yn cael ei gwaredu.</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 15 (5)</p>	<p>Mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y tîm uwch-reolwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Yn ogystal, mae adolygiadau/archwiliadau personol wedi aildechrau gan fferyllfa Ashtons, sy'n cefnogi prosesau llywodraethu ac archwilio'r gwasanaeth ymhellach.</p>

			<p>Mae ystafelloedd clinig ar y ddwy ward wedi'u hadnewyddu i ganiatáu gofod gweithio mwy ffafriol a sicrhau llywodraethu a chydymffurdedd cadarn.</p> <p>Ar adeg yr adolygiad, oherwydd anawsterau cyflenwi gan fferyllfa Ashtons, nid ydym ychwaith wedi gallu dod o hyd i'r pecynnau 'dad-natureiddio' gan eu bod ar ôl-archeb. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi gosod ôl-archeb fawr ar gyfer y rhain i sicrhau darpariaeth ddigonol wrth symud ymlaen, a bydd rhywfaint o hyn yn cael ei gadw ar gyfer argyfyngau pan na allwn gael mynediad i Ashtons ar gyfer ein proses archebu arferol.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lanweithdra a materion clinig.</p> <p>Mae system ar waith i gofnodi unrhyw stoc cyfnod byr. Mae'r holl nyrsys a gyflogir yn ymwybodol, fel rhan o'r archwiliad clinig wythnosol, eu bod am wirio dyddiadau dod i ben meddyginiaeth a dogfennu bod hyn wedi'i gwblhau. Os bydd unrhyw feddyginiaeth yn dod i ben o fewn tri mis, mae'r dyddiad yn cael ei amlygu, a bydd Ffurflen Stoc Dyddiad Byr Ashtons yn cael ei chwblhau.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ganddo system briodol ar waith i fonitro unrhyw</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 15 (5)</p>	<p>Ar adeg yr arolygiad, roedd person ifanc wedi'i dderbyn gyda meddyginiaeth oedd wedi dyddio. Roedd y rhain wedi'u cadw gan fod hyn wedi cael ei hysbysu i'r gwasanaeth blaenorol. Ers hynny, mae'r feddyginiaeth wedi'i 'dad-natureiddio'. Archebwyd y feddyginiaeth ar 14 Hydref (dau ddiwrnod) ar ôl cael ei derbyn i'r ysbyty ac, yn ystod</p>

<p>feddyginiaeth sydd wedi dyddio, a dangos bod y stoc feddyginiaeth yn cael ei harchwilio'n gywir.</p>			<p>yr amser hwn, rhoddwyd meddyginiaeth mewn dyddiad iddi a oedd ganddi pan cafodd ei derbyn hefyd.</p> <p>Fel rhan o raglen gynefino'r tîm nyrsio, mae'n ofynnol iddynt fod yn gyfarwydd â'r broses derbyn, trosglwyddo a rhyddhau er mwyn cynorthwyo ymhellach â rheoli meddyginiaethau.</p> <p>Dylai unrhyw feddyginiaeth sydd wedi dyddio gael ei 'dad-natureiddio' o fewn 24 awr, yn unol â pholisi Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd. Fel y nodwyd uchod, mae yna anawsterau cyflenwi gan fferyllfa Ashtons o ran cyrchu'r pecynnau 'dad-natureiddio' ac maent ar ôl-archeb. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi gosod ôl-archeb fawr ar gyfer y rhain er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol wrth symud ymlaen.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y llyfr cyffuriau a reolir yn Nhŷ Seren wedi'i gwblhau'n gywir.</p>	<p>17.11.2021</p>	<p>Rheoliad 20</p>	<p>Mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y tîm uwch-reolwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Anfonwyd gohebiaeth at y tîm nyrsio yn amlinellu'r gofynion yn unol â rheoliadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran sicrhau bod cofnodion cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gywir.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 15 (7) 8 (a)</p>	<p>Mae Ysbyty Hillview wedi'i ddatgan fel “mewn digwyddiad” oherwydd achosion positif o COVID-19 ers 5 Hydref 2021. Mae pob achos</p>

<p>heintiau yn cael eu goruchwyllo a'u monitro mewn modd cadarn ac ymwithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir.</p>			<p>heblaw un wedi'i nodi fel achos profi ac olrhain nad yw'n tarddu o'r tu mewn i'r ysbyty.</p> <p>Bydd cyfathrebu rheolaidd gyda'r tîm ar draws y safle i'w hatgoffa o bwysigrwydd cadw at ganllawiau a phrotocolau COVID-19 yn parhau. Ar gyfer aelodau staff, lle ceir achosion o dorri rheolau dro ar ôl tro, cymerir y camau angenrheidiol.</p> <p>Darparodd yr arweinydd iechyd a diogelwch yn Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd dystiolaeth o archwiliadau atal a rheoli heintiau a gynhelir yn rheolaidd ar draws y safle. Yn ogystal, gweithredwyd Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn ynghylch cydymffurfedd o ran atal a rheoli heintiau.</p> <p>Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi cyflwyno gwisgoedd ar gyfer gwaith gofal iechyd i gefnogi wrth sicrhau bod staff heb unrhyw orchudd 'o dan y penelin' pan fyddant mewn manau clinigol.</p> <p>Fel rhan o'r prosesau llywodraethu, mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfod archwilio ac effeithiolrwydd clinigol i sicrhau ymhellach gadernid y prosesau a bod gwersi'n cael eu dysgu o gamau gweithredu / adolygiadau a gyflawnwyd.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig roi sicrwydd bod systemau a phrosesau cadarn ar waith ar gyfer cofnodi'r</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 16 (1) (a) (b)</p>	<p>Rhoddodd Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd y system cofnodion cleifion electronig newydd ar waith ym mis Mai 2019. Ers hynny, mae'r holl ffurflenni digwyddiad a adroddwyd ar gyfer y bobl ifanc o fewn y gwasanaeth wedi'u cofnodi ar y system – Careblox.</p>

<p>holl ddata digwyddiadau ac ataliaeth yn gywir.</p>			<p>Wrth gyfeirio at ffurflenni digwyddiad, maent yn mynd trwy nifer o brosesau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae aelodau o staff yn llenwi'r ffurflenni yn dilyn digwyddiad, sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan nyrs ac yn olaf gan archwilydd i adolygu ansawdd. 2. Cânt eu hadolygu bob bore yn ystod y broses o drosglwyddo clinigol a diogelwch cleifion. Gofynnir i staff fynd ar drywydd unrhyw ffurflenni digwyddiad sydd ar goll ac a amlinellwyd yn ystod y cyfarfod a'u cwblhau. 3. Cânt eu hadolygu gan y tîm seicoleg, sy'n defnyddio'r data i chwilio am themâu, patrymau a newidiadau a chynnal dadansoddiadau ac adroddiadau gweithredol. Defnyddir y data o ffurflenni digwyddiad hefyd i sicrhau bod adlewyrchiad cywir o risgiau yn cael ei gynnwys yn asesiad risg Dadansoddiad Swyddogaethol o Amgylcheddau Gofal (FACE), cynlluniau rheoli risg, ffurflenni ymgysylltu therapiwtig a fformwleiddiadau clinigol. 4. Adolygir data digwyddiadau gan y tîm clinigol yn ystod rowndiau ward a chyfarfodydd cynlluniau gofal a thriniaeth / y Dull Rhaglen Ofal ac yn benodol yn y cyfarfodydd arferion lleiaf cyfyngol. 5. Cynhyrchir adroddiadau llywodraethu clinigol misol gan ddefnyddio data'r gwasanaeth cyfan i archwilio tueddiadau a gwersi a ddysgwyd ac a adolygwyd ymhellach i weithio'n barhaus i leihau digwyddiadau. <i>Rhennir adroddiadau llywodraethu clinigol â thiworiaid Atal Rheoli Trais ac Ymosodedd i ganiatáu gwaith dadansoddi ac adolygu pellach</i>
--	--	--	---

			<p><i>i helpu'r gwasanaeth i barhau i weithio i leihau daliadau diogel ar draws y safle.</i></p> <p>Gan fod Ysbyty Hillview yn gweithio gyda thîm cymysg o staff parhaol, banc, dan gontract ac asiantaeth, darperir hyfforddiant staff i sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â sut i gofnodi digwyddiadau a phwysigrwydd hynny.</p> <p>Yn ogystal, mae staff asiantaeth yn cael sesiwn sefydlu ward ar ddefnyddio Careblox wrth ddechrau gweithio yn Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd.</p> <p>Ar ben hynny, mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn croesawu ac yn annog staff asiantaeth i ymuno â'r hyfforddiant sefydlu i hyrwyddo dysgu a bod yn gyfarwydd â phrosesau'r gwasanaeth. Ym mis Mai 2020, crëwyd ffolder gwybodaeth ward hefyd sy'n darparu toreth o wybodaeth i gynorthwyo staff yn eu rôl, gan gynnwys defnyddio system Careblox. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar bob ward.</p> <p>Roedd tystiolaeth AGIC a adroddwyd yn nodi “<i>nad oedd ffurflenni digwyddiad yn cael eu llenwi gan staff yr oedd yn ofynnol iddynt gwblhau'r ffurflenni. Dywedodd staff wrthym fod adegau pan fyddant yn llenwi ffurflenni ar ran staff sy'n anghyfarwydd â'r ffurflenni digwyddiad</i>” (t.4). Cydnabyddir y bydd staff nad ydynt wedi'u neilltuo i'r person ifanc ar adegau yn llenwi ffurflen digwyddiad. Os bydd hyn yn digwydd, nodir hyn yn glir ar y ffurflen digwyddiad.</p> <p>Yn ogystal, fel y nodwyd uchod, mae ffolder gwybodaeth ward yn cefnogi'r staff ar sut i lenwi ffurflenni digwyddiad. Gan fod y staff yn</p>
--	--	--	--

			<p>cael eu hatgoffa dro ar ôl tro o bwysigrwydd ffurflenni adrodd am ddigwyddiadau a'r cynnwys, rydym yn cefnogi 'cyfeillio' wrth lenwi'r ffurflenni pan fyddant yn newydd i'r broses, i gefnogi dysgu a chynefindra.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi cael ei gymeradwyo i osod camerâu teledu cylch cyfyng o fewn ardaloedd clinigol ar y wardiau. Mae'r tîm yn credu'n gryf y byddai cael camerâu teledu cylch cyfyng o fewn y gwasanaeth (mewn ardaloedd clinigol) yn cynorthwyo'r broses adolygu digwyddiadau, y gwaith o'u cofnodi a'u cywirdeb ymhellach. Y gobaith yw y gellir cytuno ar gael camerâu teledu cylch cyfyng o fewn ardaloedd clinigol yn 2022, i gefnogi cynnal diogelwch y bobl ifanc ymhellach.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lenwi ffurflenni digwyddiad a materion sy'n codi.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw faterion diogelu a godir gan y cleifion yn cael eu cofnodi. Rhaid i'r darparwr cofrestredig hefyd ddangos ei fod yn ymateb yn briodol i</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 16 (1) (a) (b)</p>	<p>Fel gwasanaeth, rydym yn cofnodi holl hysbysiadau AGIC ac atgyfeiriadau diogelu ar un daenlen er mwyn sicrhau eu bod yn weladwy, a chaiff yr holl gamau gweithredu angenrheidiol eu triongli i sicrhau diogelwch ein holl bobl ifanc.</p> <p>Mae unrhyw ddatgeliadau a wneir gan y bobl ifanc yn cael eu cofnodi ar Careblox ac mae proses archwilio i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu a bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd. Yn dilyn</p>

<p>unrhyw honiadau o gam-drin ac yn dilyn gweithdrefnau adrodd cywir.</p>			<p>adolygiad o'r datgeliad, dilynir a chofnodir yr holl weithdrefnau a phrotocolau proffesiynol angenrheidiol.</p> <p>Mae cwynion y bobl ifanc wedi'u hychwanegu at gofrestr Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd, sy'n caniatáu ar gyfer cofnodi'r holl gamau gweithredu, tystiolaeth a chanlyniadau angenrheidiol.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi cael ei gymeradwyo i osod camerâu teledu cylch cyfyng o fewn ardaloedd clinigol ar y wardiau. Mae'r tîm yn credu'n gryf y byddai cael camerâu teledu cylch cyfyng o fewn y gwasanaeth (mewn ardaloedd clinigol) yn cynorthwyo'r broses adolygu digwyddiadau, y gwaith o'u cofnodi a'u cywirdeb ymhellach. Y gobaith yw y gellir cytuno ar gael camerâu teledu cylch cyfyng o fewn ardaloedd clinigol yn 2022, i gefnogi cynnal diogelwch y bobl ifanc ymhellach.</p> <p>Mae hysbysfyrdau ar bob un o'r wardiau sy'n amlinellu pwy yw'r arweinydd diogelu ar gyfer Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd.</p> <p>Ar ben hynny, rydym yn cefnogi aelodau pellach o'r tîm uwch-reolwyr a nyrsys i gwblhau hyfforddiant diogelu uwch.</p> <p>Gall uwch-reolwyr gael mynediad at y cofnod datgelu (bydd nodiadau atgoffa hefyd yn cael eu hanfon pan fydd ffurflen ddatgelu wedi'i chwblhau).</p> <p>Yna caiff y rhain eu hadolygu a'u rhannu â gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n ymwneud â gofal y bobl ifanc a chymerir pob cam angenrheidiol, e.e. cyflwyno ffurflen atgyfeirio amlasiantaeth (MARF).</p>
--	--	--	--

			<p>Mae proses lywodraethu Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd o ffurflenni atgyfeirio amlasiantaeth a gwblhawyd / a gyflwynwyd yn cynnwys eu dogfennu ar daenlen sydd hefyd â hysbysiadau AGIC. Mae'r ddogfen fyw ar y cyd hon yn sicrhau triongli gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol / asiantaethau mewnol ac allanol. Mae'r cofnod hwn wedyn yn cael ei adolygu'n fisol gan aelodau allweddol o'r tîm i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a diweddariadau angenrheidiol yn cael eu cwblhau.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg a chynlluniau gofal cynhwysfawr ar waith sy'n rhoi manylion penodol a digonol i alluogi ac arwain y staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a), (b) ac (c)</p>	<p>Mae gan bob person ifanc asesiad risg FACE cynhwysfawr a sgoriau cyfredol. Mae sgoriau asesiad risg FACE yn cael eu hadolygu mewn rowndiau ward ac mae'r bobl ifanc yn eu gweld ac yn gallu gwneud sylwadau os ydynt yn ansicr neu'n anghytuno â'r risgiau a nodwyd.</p> <p>Yn ogystal, mae ganddynt gynllun gofal cynnal amgylchedd diogel a chynlluniau gofal lleihau risg. Amlinellir yr holl risgiau ar flaen pob ffurflen ymgysylltu therapiwtig i'r bobl ifanc ynghyd ag esboniad o'r sgôr a nodir strategaethau ymdopi y mae'r bobl ifanc wedi nodi sy'n eu cynorthwyo i isgyfeirio ar adegau o ofid dwysach.</p> <p>Mae AGIC wedi cytuno ar gynllun a chategoriâu cynlluniau gofal Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd ac nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud ers hynny. Fel y nodwyd drwy gydol y cynllun gweithredu, mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn defnyddio Careblox i gofnodi pob agwedd glinigol ar gofnodion gofal y bobl ifanc.</p> <p>O fewn Careblox, mae adran arweiniad clir ar yr ochr chwith lle gellir dod o hyd i'r holl ddogfennau clinigol. Mae pob adran wedi'i labelu'n glir, e.e. Nodiadau Cyfoes, Cysylltiadau Allweddol, Cynlluniau Gofal</p>

			<p>Nyrsio, Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng, Digwyddiadau, Seicoleg, Seiciatreg ac ati.</p> <p>Ar ben hynny, mae gan bob person ifanc 'ffurflen ymgysylltu therapiwtig' gynhwysfawr sy'n amlinellu ei risgiau (cyfredol a hanesyddol), sgoriau FACE, camau gweithredu i leihau risg, strategaethau ymdopi a thechnegau isgyfeirio. Yn ogystal, mae gan fwyafrif y bobl ifanc gynllun cymorth ymddygiad cadarnhaol hefyd wedi'i ymgorffori yn y ffurflen ymgysylltu therapiwtig. Mae'r holl fanylion hyn mewn fformat hawdd i alluogi'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, risgiau ac a yw cynlluniau gofal wedi'u diweddarau yn dilyn hyn. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu a'u bod yn parhau i fod yn gyfredol.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn rhoi sicrwydd i AGIC bod systemau ar waith i sicrhau bod gan y staff anghyfarwydd wybodaeth dda am y cleifion i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a) (b) (2) (a)</p>	<p>Ym mis Mai 2020, cyflwynwyd ffolder gwybodaeth ward, sy'n dangos canllawiau cam wrth gam ar sut i gael mynediad at Careblox (system cofnodion cleifion electronig). Anfonir y canllaw hwn hefyd at yr asiantaethau, i gefnogi staff sydd â gwybodaeth ymarferol dda am Ysbyty Hillview.</p> <p>Gan fod Ysbyty Hillview yn gweithio gyda thîm cymysg o staff parhaol, banc, dan gontract ac asiantaeth, darperir hyfforddiant staff i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â sut i gofnodi digwyddiadau a phwysigrwydd hynny. Hefyd, mae staff parhaol, staff dan gontract a staff banc yn</p>

			<p>cael hyfforddiant yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae staff asiantaeth yn cael eu hannog a'u croesawu i ymuno â'r hyfforddiant, ac mae'r ffolder gwybodaeth ward yn darparu toreth o wybodaeth i'w cynorthwyo yn eu rôl, gan gynnwys defnyddio system Careblox.</p> <p>Yn ogystal, trwy'r broses archwilio digwyddiadau, mae unrhyw staff y canfyddir eu bod yn llenwi ffurflenni digwyddiad yn anfoddfaol yn cael eu galw i gwblhau hyfforddiant gloywi/ychwanegol. Cedwir cofnod o hyn.</p> <p>Ar ben hynny, mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gweithio i sicrhau bod staff asiantaeth yn cael eu bwcio mewn bloc, pan fo'n bosibl, i leihau amlder staffio afreolaidd / trosiant uchel o wynebaw anghyfarwydd. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth dîm penodedig i sicrhau bod mesurau effeithiol a chadarn yn canolbwyntio ar recriwtio i gynyddu'r tîm staff craidd.</p> <p>Mae'r holl staff yn cael cyfnod sefydlu i'w hymgyfarwyddo â'r ward ac mae ganddynt hefyd fynediad i ffolder gwybodaeth y ward. Ar ben hynny, rhaid i'r staff ward fynychu/derbyn y trosglwyddiad clinigol a diogelwch cleifion ar gyfer y ward y byddant yn gweithio arni cyn pob shift.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r staff anghyfarwydd ymhellach, mae tudalen flaen y ffurflenni ymgysylltu therapiwtig i bobl ifanc yn amlinellu risgiau a strategaethau lleihau risg ac mae'n cynnwys ffotograffau ohonynt i'w cynorthwyo yn eu rôl.</p>
--	--	--	--

			<p>Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd weithdrefn archwilio i fonitro cydymffurfedd ffurflenni digwyddiad a phrosesau sefydlu – a amlinellwyd uchod.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddangos sut y mae'n sicrhau bod gan staff anghyfarwydd wybodaeth dda ynghylch llenwi ffurflenni digwyddiad a bod yr holl staff yn llenwi ffurflenni digwyddiad pan fydd digwyddiadau'n codi.</p>	<p>03/01/22</p>		<p>Ym mis Mai 2020, cyflwynwyd ffolder gwybodaeth ward, sy'n dangos canllawiau cam wrth gam ar sut i gael mynediad at Careblox (system cofnodion cleifion electronig). Anfonir y canllaw hwn hefyd at yr asiantaethau, i gefnogi staff sydd â gwybodaeth ymarferol dda am Ysbyty Hillview.</p> <p>Gan fod Ysbyty Hillview yn gweithio gyda thîm cymysg o staff parhaol, banc, dan gontract ac asiantaeth, darperir hyfforddiant staff i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â sut i gofnodi digwyddiadau a phwysigrwydd hynny. Hefyd, mae staff parhaol, staff dan gontract a staff banc yn cael hyfforddiant yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae staff asiantaeth yn cael eu hannog a'u croesawu i ymuno â'r hyfforddiant ac mae'r ffolder gwybodaeth ward yn darparu toreth o wybodaeth i'w cynorthwyo yn eu rôl, gan gynnwys defnyddio system Careblox – <i>gweler y copi mewnosodedig o'r pecyn gwybodaeth ward uchod.</i></p> <p>Yn ogystal, trwy'r broses archwilio digwyddiadau, mae unrhyw staff y canfyddir eu bod yn llenwi ffurflenni digwyddiad yn anfoddfaol yn cael eu galw i gwblhau hyfforddiant gloywi/ychwanegol. Cedwir cofnod o hyn.</p> <p>Ar ben hynny, mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gweithio i sicrhau bod staff asiantaeth yn cael eu bwcio mewn bloc, pan fo'n bosibl, i leihau amllder staffio afreolaidd / trosiant uchel o wynebau anghyfarwydd. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth dîm penodedig i</p>

			<p>sicrhau bod mesurau effeithiol a chadarn yn canolbwyntio ar recriwtio i gynyddu'r tîm staff craidd.</p> <p>Mae'r holl staff yn cael cyfnod sefydlu i'w hymgyfarwyddo â'r ward ac mae ganddynt hefyd fynediad i ffolder gwybodaeth y ward. Ar ben hynny, mae'n rhaid i'r staff ward fynychu/derbyn y trosglwyddiad clinigol a diogelwch cleifion ar gyfer y ward y byddant yn gweithio arni cyn pob shift.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r staff anghyfarwydd ymhellach, mae tudalen flaen y ffurflenni ymgysylltu therapiwtig i bobl ifanc yn amlinellu risgiau a strategaethau lleihau risg ac mae'n cynnwys ffotograffau ohonynt i'w cynorthwyo yn eu rôl.</p> <p>Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd weithdrefn archwilio i fonitro cydymffurfedd ffurflenni digwyddiad a phrosesau sefydlu.</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu, yn benodol pan fydd cynlluniau gofal yn nodi y dylid neilltuo staff benywaidd i'r claf gael ei harsylwi oherwydd trawma blaenorol.</p>	<p>03/01/22</p>	<p>Rheoliad 18 (1) (a), (b)</p>	<p>Mae'r tîm yn cydnabod bod gan gyfran sylweddol o'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi nifer sylweddol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sydd yn aml wedi'u cyflawni gan rywedd penodol. Fodd bynnag, oherwydd maint y tîm sy'n cefnogi'r bobl ifanc a'r angen i gynnal diogelwch y cleifion bob amser, ni allwn ac nid ydym byth addo y bydd unrhyw berson ifanc yn cael ei gefnogi gan un rhywedd yn unig.</p> <p>Er enghraifft, os yw aelod o staff gwrywaidd yn cefnogi person ifanc benywaidd i'r ystafell ymolchi (nid oes gan bobl ifanc fynediad i'r ystafell ymolchi heb oruchwyliaeth), bydd yn cael ei gyfnewid am aelod o staff benywaidd i gefnogi prosesau cadw urddas a diogelwch.</p>

			<p>Mae nifer o ddogfennau clinigol sy'n nodi na allwn gefnogi pob merch yn unig i gyflawni'r ymgysylltiad therapiwtig (arsylwi). Ar ben hynny, mae adolygiad o'r dyraniadau staffio dyddiol yn rhoi tystiolaeth bod y cleifion yn bennaf yn cael eu cefnogi gan aelodau benywaidd o staff.</p> <p>Yn ystod mynediad i ystafelloedd gwely, mae'r tîm yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n bennaf gan staff benywaidd gan mai dyma pryd mae llawer yn dewis newid i byjamas a chael mynediad i'w cawodydd. Fel y nodwyd uchod, mae'r staff gwrywaidd yn cael eu cyfnewid am staff benywaidd i sicrhau bod urddas a diogelwch yn cael eu cynnal.</p> <p>Fel gwasanaeth, mae Ysbyty Hillview yn gweithio gan ddefnyddio dull sy'n ystyriol o drawma. Bwriad craidd gweithio gan ddefnyddio dull sy'n ystyriol o drawma yw gallu "<i>rhagweld ac ymateb i arferion posibl y gellir eu gweld neu eu profi fel rhai sy'n aildrawmatig i gleientiaid</i>" a'u cefnogi i "<i> greu ffyrdd newydd o ymateb i sefyllfaoedd penodol sy'n sbarduno ymateb sy'n gysylltiedig â thrawma</i>" (SAMHSA, 2014, t.19).</p> <p>Mae'r tîm yn cefnogi theori modelu 'rhag-gymdeithasol' i gynorthwyo twf ôl-drawmatig gyda'r bobl ifanc. Mae yna lu o ymchwil sy'n cefnogi'r angen i gefnogi'r rhai sy'n profi anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD) gyda'u hadferiad a'r effaith negyddol y gall osgoi ysgogiadau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad ei chael.</p> <p>Ar ben hynny, gan weithio o safbwynt ystyriol o drawma fel gwasanaeth, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cefnogi'r bobl ifanc gyda 'phrofiadau emosiynol cywirol', sy'n caniatáu i sefyllfaoedd</p>
--	--	--	---

			<p>emosiynol gael eu “<i>prosesu mewn ffordd newydd</i>” (Starkman, 2017), a thrwy hynny gynorthwyo adferiad.</p> <p>Mae'r tîm clinigol wedi cysylltu â'i gomisiynydd GIG Cymru yn gofyn am leoliad arall ar gyfer anghenion pwrpasol yr un person ifanc y cododd arolygwyr AGIC y pryder hwn am ei gyfer, sef lleoliad â staffio a phreswylwyr merched yn unig.</p> <p>Yn ogystal, mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gwneud ymdrechion ar y cyd i staffio ar gymhareb 70/30 o fenywod i ddynion ar y wardiau i gefnogi'r bobl ifanc ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd yr anawsterau recriwtio cenedlaethol/byd-eang mewn sawl sector. Mae hyn wedi'i ychwanegu at y gofrestr risg gorfforaethol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ffocws.</p>
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cadeiriau olwyn ar gael i'r cleifion pan fo angen.	03/01/22	Rheoliad 18 (1) (a), (b)	Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd ddwy gadair olwyn ar y safle. Cedwir y rhain mewn man diogel ac mae arwyddion ar bob ward yn hysbysu'r staff o'u lleoliad. Asesir y defnydd o'r rhain o ran risg a cheir mynediad iddynt yn ôl yr angen.
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac archwilio wedi'u sefydlu'n ddigonol	03/01/22	Rheoliad 19	<p>Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd broses lywodraethu sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu wardiau • Rheoli meddyginiaethau • Cymhorthfa adnoddau dynol

<p>ledled yr ysbyty a dangos bod gwybodaeth yn cael ei hasesu, ei monitro a'i dogfennu'n rheolaidd, i sicrhau ansawdd y gwasanaeth ac i nodi, asesu a rheoli risgiau sy'n ymwneud â gofal diogel i'r cleifion.</p>			<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu iechyd a diogelwch • Rhwydwaith gweithwyr • Archwilio ac effeithiolrwydd clinigol • Llywodraethu diogelwch • Y lleiaf cyfyngol a'r gwersi a ddysgwyd • Rheoli gwelyau • Llywodraethu integredig • Llywodraethu corfforaethol <p>Amlinellir archwiliadau pellach a wneir mewn calendr a ddsberthir ar draws y gwasanaeth.</p> <p>Fel y nodwyd mewn nifer o feysydd yn y cynllun gweithredu, mae prosesau archwilio ar waith ar gyfer cynlluniau gofal, asesiadau risg, meddyginiaethau, clinigau, a'r broses adrodd i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Yn ystod adborth arolygiad AGIC, gofynnwyd yn benodol i'r tîm fod yn "<i>ymwthiol</i>" wrth reoli'r archwiliadau hyn a meysydd o fewn y gwasanaeth, ac mae hyn yn cael ei gyflawni.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p>
---	--	--	--

Service / health board Cynrychiolydd:

Enw (llythrennau bras):	Eric Pwamang (Prif Swyddog Gweithredol a Rheolwr Cofrestredig) a Dr Lisa Thomas-Gray (Cyfarwyddwr Ysbyty)
Rôl:	Prif Swyddog Gweithredol / Rheolwr Cofrestredig a Chyfarwyddwr Ysbyty
Dyddiad:	10.06.2022

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Hillview

Ward/uned(au): Ward Ebwy, Brenin, a Thŷ Seren

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodir yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ysbyty'n parhau i fod yn lân ac yn daclus bob amser.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Ar hyn o bryd, mae tîm o lanhawyr sy'n cefnogi yn ystod y dydd a gyda'r nos trwy gydol yr wythnos a'r penwythnos. Gyda'r nos, mae'r glanhawyr yn canolbwyntio ar ardaloedd traffig uchel, gan ddiheintio a sicrhau bod y wardiau'n cael eu glanhau, a biniau'n cael eu gwagio ac ati. Yn dilyn adolygiad AGIC ym mis Tachwedd 2021, mae biniau newydd ar gyfer yr	Lee Davies / Dr Lisa Thomas-Gray	Datryswyd a pharhaus

		<p>ystafelloedd ymolchi wedi cael eu newid ac nid adroddwyd am unrhyw faterion pellach.</p> <p>Mae glanweithdra'r ystafelloedd gweini yn cael ei wirio a'i adolygu gan y cydlynwyr uned nos ac adroddir arno i'r tîm ehangach. Yn ogystal, gofynnir i'r cydlynwyr uned nos nodi 'unigolyn allweddol adolygiad amgylcheddol', i gefnogi ac adolygu pob maes ymhellach.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod amgylchedd yr ysbyty yn cael ei wella i'w wneud yn fwy dymunol a diddorol i'r cleifion.</p>	<p>3. Hybu, diogelu a gwella iechyd</p>	<p>Mae'r bobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd perchnogaeth o'r ardaloedd ar y ward a'u haddurno'n briodol. Maent wedi addurno'r ystafelloedd ffôn ar y ward yn ddiweddar. Yn ogystal, mae ardaloedd bwrdd sialc ar y ward (ar gais y bobl ifanc) i ddefnyddio a mynegi eu hunain yn greadigol ymhellach.</p> <p>Ar Ward Ebwy, mae'r bobl ifanc wedi peintio murlun o flodau'r haul gyda dyfyniadau cadarnhaol ar draws dwy wal. Mae mwy o gelf yn cael ei chreu ganddyn nhw hefyd.</p>	<p>Dr Lisa Thomas-Gray</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn rhyngweithio'n dda â'r cleifion pan fyddant yn arsylwi.</p>	<p>3. Hybu, diogelu a gwella iechyd</p>	<p>Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gwneud ymdrechion egniol i annog staff i rhyngweithio'n dda' gyda'r bobl ifanc bob amser. Mae pwyslais ar hyn yn dechrau yn ystod</p>	<p>Arweinydd clinigol, rheolwyr wardiau ac arweinwyr adrannol</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

	<p>hyfforddiant sefydlu staff gyda sesiwn benodol. Mae hefyd yn cael sylw mewn sesiynau eraill i gefnogi datblygiad hyfforddiant ac arferion da sydd wedi'u sefydlu.</p> <p>Yn ogystal, gofynnir i'r bobl ifanc mewn cyfarfodydd ward a oes unrhyw faterion i'w codi ac i gwblhau arolygon boddhad sy'n eu galluogi i godi pethau cadarnhaol a negyddol ymhellach. Mae'n bwysig nodi y tu allan i hyn bod gan y bobl ifanc fynediad at wasanaeth eirioli, gweithiwr cymdeithasol ysbyty, timau cymunedol, teulu, y tîm cyfan o staff, a llu o gyfarfodydd, gan gynnwys rowndiau ward a llywodraethu, i godi unrhyw faterion y dymunant.</p> <p>Mae'r staff hefyd yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, lle mae pwysigrwydd cefnogaeth ac ymgysylltiad therapiwtig gyda'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw yn cael ei atgyfnerthu ymhellach. Ar ben hynny, mae cymwyseddau ymgysylltu therapiwtig yn cael eu cwblhau gyda'r staff yn flynyddol neu'n fwy rheolaidd os oes angen.</p>		
--	--	--	--

		Mae'r tîm hefyd yn anfon memorandwm rheolaidd at y staff yn eu hatgoffa o bwysigrwydd rhyngweithio da wrth gefnogi'r bobl ifanc.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cadw gwybodaeth am y cleifion yn gyfrinachol yn swyddfeydd y wardiau.	10. Urddas a pharch	<p>Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gwneud ymdrechion egniol i annog staff i 'ryngweithio'n dda' gyda'r bobl ifanc bob amser. Mae pwyslais ar hyn yn dechrau yn ystod hyfforddiant sefydlu staff, gyda sesiynau dynodedig yn canolbwyntio ar hyn. Mae hefyd yn cael sylw mewn sesiynau eraill i gefnogi datblygiad hyfforddiant ac arferion da sydd wedi'u sefydlu.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Mae polisi Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd hefyd yn amlinellu pwysigrwydd parchu a chynnal urddas a pharch.</p>	Eric Pwamang (Gwarcheidwad Caldicott)	Datryswyd a pharhaus

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hawdd eu deall i'r cleifion.</p>	<p>9. Gwybodaeth i gleifion a'u cydsyniad</p>	<p>Mae'r taflenni hyn yn cael eu cydgynhyrchu gyda'r bobl ifanc ar gyfer mewnbwn ar gynnwys, darllenadwyedd, ac a ydynt yn diwallu eu hanghenion. Os oes angen fersiwn hawdd ei deall, gwneir addasiadau priodol. Er enghraifft, o ran gwybodaeth am feddyginiaeth. Yna mae canllawiau hawdd eu deall yn cael eu cyrchu a'u hargraffu ar gyfer y bobl ifanc. Er mwyn atal rhoi gwybodaeth wedi dyddio i'r bobl ifanc, rydym yn argraffu yn ôl yr angen ar gyfer gwybodaeth feddygol. Cefnogwyd person ifanc hefyd i ysgrifennu'r canllaw Croeso i Bobl Ifanc a Rhieni.</p>	<p>Arweinydd clinigol a rheolwyr wardiau</p>	<p>Monitro parhaus</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y tîm amlddisgyblaethol yn cyfathrebu â'r bobl ifanc gan ddefnyddio iaith sy'n hawdd ei deall.</p>	<p>18. Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Mae staff Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gweithio o safbwynt sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob agwedd ar ddarparu gofal a thriniaeth ac nid mewn ffordd ragnodol.</p> <p>Mae'r holl bobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u hannog i gadeirio neu gyd-gadeirio eu cyfarfodydd. Fel gwasanaeth, rydym yn annog pob gweithiwr proffesiynol (mewnol ac allanol) i beidio â defnyddio 'jargon' wrth ymgysylltu â'r bobl ifanc ac yn ystod cyfarfodydd ac i sicrhau bod y cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol ar gyfer y person ifanc.</p>	<p>Pob pennaeth adran</p>	<p>Parhaus</p>

		<p>Yn ogystal, o ran hyfforddiant cynefino staff, mae pwysigrwydd iaith yn cael ei drafod er mwyn sicrhau agwedd gyson wrth gefnogi'r bobl ifanc. Dosberthir memoranda hefyd i atgoffa am bwysigrwydd defnyddio iaith briodol wrth gefnogi'r bobl ifanc.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y tîm amlddisgyblaethol yn cael trafodaethau ystyrlon â'r cleifion a'u cynnwys yn y trafodaethau.</p>	<p>18. Cyfathrebu'n effeithiol</p>	<p>Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gweithio o safbwynt sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob agwedd ar ddarparu gofal a thriniaeth.</p> <p>Mae'r holl bobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u hannog i gadeirio neu gyd-gadeirio eu cyfarfodydd. Fel gwasanaeth, rydym yn annog pob gweithiwr proffesiynol (mewnol ac allanol) i beidio â defnyddio 'jargon' wrth ymgysylltu â'r bobl ifanc ac yn ystod cyfarfodydd ac i sicrhau bod y cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol ar gyfer y person ifanc.</p> <p>Yn ogystal, o ran hyfforddiant cynefino staff, mae pwysigrwydd iaith yn cael ei drafod er mwyn sicrhau agwedd gyson wrth gefnogi'r bobl ifanc. Dosberthir memoranda hefyd i atgoffa am</p>	<p>Tîm amlddisgyblaethol</p>	<p>Parhaus</p>

		bwysigrwydd defnyddio iaith briodol wrth gefnogi'r bobl ifanc.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y tîm amlddisgyblaethol a'r tîm uwch-reolwyr yn treulio mwy o amser ar y wardiau.		<p>Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd dîm rhagweithiol a hawdd mynd ato sy'n gwneud pob ymdrech i dreulio amser ar y ward gyda'r staff a'r bobl ifanc wrth sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau rheoli yn cael eu cyflawni, gan gynnwys archwiliadau, gwaith llywodraethu, adolygiadau ac ati.</p> <p>At hynny, mae'r tîm amlddisgyblaethol a'r tîm uwch-reolwyr ar y ward bob dydd mewn rhyw fodd, yn mynychu cyfarfodydd ward, cyfarfodydd llywodraethu, adolygiadau, rowndiau ward ac ati.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p>	Tîm amlddisgyblaethol (mae'r tîm uwch-reolwyr yn rhan o'r tîm amlddisgyblaethol)	Parhaus
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod giât yr ysbyty bob amser dan glo.	22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn derbyn ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod giât yr ysbyty yn gweithio ac yn cau'n brydlon yn dilyn rhoi mynediad i gerbydau. Mae	Lee Davies (Arweinydd Iechyd a Diogelwch)	Datryswyd a pharhaus

		<p>oedi wrth i'r giât gau ar ôl i gerbydau fynd heibio, na ellir ei ddiystyru gan ei fod yn fesur diogelwch.</p> <p>Mae intercomau giât newydd wedi'u gosod ers arolygiad diwethaf AGIC a hysbyswyd staff y dderbynfa i ofyn i ymwelwyr am fanylion i brofi eu hunaniaeth pan nad oeddent yn hysbys.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ffobiau allweddol electronig i gael mynediad i'r wardiau yn gweithio'n gywir.</p>	<p>22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn cynnal archwiliad i bob ffob allweddol electronig gan y dderbynfa a'r rheolwr diogelwch yn rheolaidd, gyda cofnod i wybod pa aelod o staff sydd â pha gwlyn/ffob allweddol ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw ffob electronig sy'n cael ei ganfod/adrodd i fod yn ddiffygiol yn cael ei newid ar unwaith ar gyfer un sy'n gwbl weithredol a bydd y gronfa ddata archwilio yn cael ei diweddarau gan y rheolwr diogelwch.</p>	<p>Lee Davies</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y lifft sydd wedi torri yn Ward Ebwy yn cael ei atgyweirio.</p>	<p>22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd ddau lifft gweithredol ar gynllun gwasanaethu / cynnal a chadw gyda Stannah. Ar adeg yr arolygiad, roedd y ddau lifft yn weithredol. Er eglurhad, mae un lifft wedi ei leoli ar ochr Ward</p>	<p>Lee Davies</p>	<p>Amherthnasol</p>

		Brenin (wrth yr ystafell aml-ffydd) ac un ar ochr Ward Ebwy cyn y brif ward.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr uned aerdymheru yn ystafell dawel Tŷ Seren yn cael ei hatgyweirio.	22. Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd unedau aerdymheru ar y prif wardiau. Mae'r gwasanaeth yn edrych i gynyddu'r ddarpariaeth hon drwy'r ysbyty. Ar adeg yr arolygiad, nid yw'r uned aerdymheru a nodwyd gan y tîm wedi bod yn weithredol ers amser maith a bwriedir ei thynnu oddi yno. Comisiynwyd prosiect newydd i adnewyddu'r unedau aerdymheru ar y wardiau gan y bwrdd.	Dr Lisa Thomas-Gray a Lee Davies	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system lywodraethu gadarn ar waith i fonitro a goruchwyllo bod archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cwblhau'n gywir	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Darparodd yr arweinydd iechyd a diogelwch yn Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd dystiolaeth o archwiliadau atal a rheoli heintiau a gynhelir yn rheolaidd ar draws y safle. Yn ogystal, gweithredwyd Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn ynghylch cydymffurfedd o ran atal a rheoli heintiau. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi cyflwyno gwisgoedd ar gyfer gwaith gofal iechyd i gefnogi wrth sicrhau bod staff heb	Eric Pwamang (Rheolwr Cofrestredig Phrif Swyddog Gweithredol)	Parhaus gyda chyfarfodydd allywodraethu misol

		<p>unrhyw orchudd 'o dan y penelin' pan fyddant mewn mannau clinigol.</p> <p>Fel rhan o'r prosesau llywodraethu, mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfod archwilio ac effeithiolrwydd clinigol i sicrhau ymhellach gadernid y prosesau a bod gwersi'n cael eu dysgu o gamau gweithredu / adolygiadau a gyflawnwyd.</p>		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Gweler uchod.	Chloe Johnson a Lee Davies	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod bwydydd yn cynnwys manylion ynghylch pryd y caiff y cynnyrch ei agor, y dyddiad defnyddio erbyn ac enw'r claf.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	<p>Mae'r dyddiadau 'defnyddio erbyn' yn cael eu gwirio gan staff y gegin cyn i'r eitemau gyrraedd yr ardal weini, ac mae eitemau darfodus iawn yn cael eu gwirio'n ddyddiol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithredu rheolaethau ychwanegol ar ffurf labeli yn cael eu gosod ar eitemau pan fyddant yn cael eu hagar, a bydd y rhain hefyd yn cynnwys enw'r person ifanc lle bo'n berthnasol.</p> <p>Mae'r staff wedi cael gwybod i sicrhau bod dyddiad ar fwyd y bobl ifanc sy'n cael ei agor gan y bydd ceidwaid y tŷ yn cael gwared ar yr holl</p>	Lee Davies a Chloe Johnson	Parhaus

		fwydydd nad ydynt wedi'u labelu'n gywir neu sydd wedi dyddio.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw eitemau bwyd a diod y staff yn cael eu storio yn oergelloedd y cleifion.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r holl staff wedi'u hysbysu NA DDYLID storio bwyd sy'n perthyn i'r staff yn oergelloedd y cleifion gan y bydd y rhain yn cael eu taflu ac y bydd staff tramgwyddus yn wynebu prosesau disgyblu posibl. Mae'r tîm yn cynnal gwiriadau rheolaidd wrth gynnal eu Teithiau Ansawdd o fewn y gwasanaeth. Yn ogystal, mae memoranda, a chyfathrebu trwy e-bost ac ati, hefyd wedi'u dosbarthu i atgoffa staff am hyn.	Chloe Johnson a Lee Davies	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod penderfyniadau i roi meddyginiaeth drwy fwydo nasogastrig yn cael eu dogfennu a'u cyfiawnhau.	14. Maeth	Mae hyn wedi'i ddogfennu ar hyn o bryd, ond yn dilyn ymlaen o arolygiad AGIC, mae'r dogfennau wedi'u cryfhau ymhellach gyda'r rhesymeg yn glir yn y cynlluniau gofal.	Clinigwyr cyfrifol a nyrsys	Datryswyd a pharhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion y porthiant nasogastrig yn cael eu dogfennu yng nghynllun gofal y claf a bod cofnodion cyfarfodydd lle gwnaed y penderfyniad hwn ar gael i'r staff eu gwirio.	14. Maeth	Mae hyn wedi'i ddogfennu ar hyn o bryd, ond yn dilyn ymlaen o arolygiad AGIC, mae'r dogfennau wedi'u cryfhau ymhellach gyda'r rhesymeg yn glir o fewn cynlluniau gofal a chofnodion cyfarfodydd.	Deietegydd, nyrsys, a chlinigwyr cyfrifol	Datryswyd a pharhaus

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhoi meddyginiaeth trwy borthiant nasogastrig yn cydymffurfio â chanllawiau meddyginiaeth.</p>	<p>14. Maeth</p>	<p>Mae hyn wedi'i ddogfennu ar hyn o bryd, ond yn dilyn ymlaen o arolygiad AGIC, mae'r dogfennau wedi'u cryfhau ymhellach gyda'r rhesymeg yn glir o fewn cynlluniau gofal a chofnodion cyfarfodydd.</p>	<p>Clinigwyr cyfrifol, deietegydd a nyrsys</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell glinigol yn drefnus, yn lân ac yn daclus.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae'r tîm nyrsio yn ymwybodol mai nhw sy'n gyfrifol am lanhau ystafelloedd y clinig a'r oergelloedd. Mae memoranda yn eu hatgoffa o'r cyfrifoldeb hwn wedi'u hanfon.</p> <p>Yn ogystal, mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan yr uwch-reolwyr.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lanweithdra a materion clinig.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Mae'r tîm uwch-reolwyr yn parhau i gynnal hapwiriadau ac archwiliadau trylwyr ac ymwithiol i sicrhau cydymffurfedd.</p>	<p>Rheolwyr wardiau ac arweinydd clinigol</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod meddyginiaeth sydd wedi dod i ben yn cael ei thafu.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y tîm uwch-reolwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Yn ogystal, mae adolygiadau/archwiliadau personol wedi ailddechrau gan fferyllfa Ashtons, sy'n cefnogi prosesau llywodraethu ac archwilio'r gwasanaeth ymhellach.</p> <p>Mae ystafelloedd clinig ar y ddwy ward wedi'u hadnewyddu i ganiatáu gofod gweithio mwy ffafriol a sicrhau llywodraethu cadarn.</p> <p>Ar adeg yr adolygiad, oherwydd anawsterau cyflenwi gan fferyllfa Ashtons, nid ydym ychwaith wedi gallu dod o hyd i'r pecynnau 'dad-natureiddio' gan eu bod ar ôl-archeb. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi gosod ôl-archeb fawr ar gyfer y rhain i sicrhau darpariaeth ddigonol wrth symud ymlaen, a bydd rhywfaint o hyn yn cael ei gadw ar gyfer argyfyngau pan na allwn gael mynediad i Ashtons ar gyfer ein proses archebu arferol.</p>	<p>Rheolwyr wardiau ac arweinydd clinigol</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>
--	-----------------------------------	---	---	-----------------------------

		<p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lanweithdra a materion clinig.</p> <p>Mae system ar waith i gofnodi unrhyw stoc cyfnod byr. Mae'r holl nyrsys a gyflogir yn ymwybodol, fel rhan o'r archwiliad clinig wythnosol, eu bod am wirio dyddiadau dod i ben meddyginiaeth a dogfennu bod hyn wedi'i gwblhau. Os bydd unrhyw feddyginiaeth yn dod i ben o fewn tri mis, mae'r dyddiad yn cael ei amlygu, a bydd Ffurflen Stoc Dyddiad Byr Ashtons yn cael ei chwblhau.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod system lywodraethu gadarn ar waith i fonitro a goruchwyllo bod archwiliadau clinigol a meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gywir.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y tîm uwch-reolwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Yn ogystal, mae adolygiadau/archwiliadau personol wedi ailddechrau gan fferyllfa Ashtons, sy'n cefnogi prosesau llywodraethu ac archwilio'r gwasanaeth ymhellach.</p>	<p>Eric Pwamang a Dr Lisa Thomas-Gray</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

		<p>Mae ystafelloedd clinig ar y ddwy ward wedi'u hadnewyddu i ganiatáu gofod gweithio mwy ffafriol a sicrhau llywodraethu a chydymffurfedd cadarn.</p> <p>Ar adeg yr adolygiad, oherwydd anawsterau cyflenwi gan fferyllfa Ashtons, nid ydym ychwaith wedi gallu dod o hyd i'r pecynnau 'dad-natureiddio' gan eu bod ar ôl-archeb. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi gosod ôl-archeb fawr ar gyfer y rhain i sicrhau darpariaeth ddigonol wrth symud ymlaen, a bydd rhywfaint o hyn yn cael ei gadw ar gyfer argyfyngau pan na allwn gael mynediad i Ashtons ar gyfer ein proses archebu arferol.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lanweithdra a materion clinig.</p> <p>Mae system ar waith i gofnodi unrhyw stoc cyfnod byr. Mae'r holl nyrsys a gyflogir yn ymwybodol, fel rhan o'r archwiliad clinig wythnosol, eu bod am wirio dyddiadau dod i ben meddyginiaeth a dogfennu bod hyn wedi'i</p>		
--	--	---	--	--

		<p>gwblhau. Os bydd unrhyw feddyginiaeth yn dod i ben o fewn tri mis, mae'r dyddiad yn cael ei amlygu, a bydd Ffurflen Stoc Dyddiad Byr Ashtons yn cael ei chwblhau.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau ystafelloedd clinigol yn cael eu cwblhau yn ôl yr amllder gofynnol.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae'r archwiliadau o ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y Tîm uwch-reolwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p> <p>Yn ogystal, mae adolygiadau/archwiliadau personol wedi ailddechrau gan fferyllfa Ashtons, sy'n cefnogi prosesau llywodraethu ac archwilio'r gwasanaeth ymhellach.</p> <p>Mae ystafelloedd clinig ar y ddwy ward wedi'u hadnewyddu i ganiatáu gofod gweithio mwy ffafriol a sicrhau llywodraethu a chydymffurfedd cadarn.</p> <p>Ar adeg yr adolygiad, oherwydd anawsterau cyflenwi gan fferyllfa Ashtons, nid ydym ychwaith wedi gallu dod o hyd i'r pecynnau 'dad-natureiddio' gan eu bod ar ôl-archeb. Mae</p>	<p>Dr Lisa Thomas-Gray ac Eric Pwamang</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

		<p>Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd wedi gosod ôl-archeb fawr ar gyfer y rhain i sicrhau darpariaeth ddigonol wrth symud ymlaen, a bydd rhywfaint o hyn yn cael ei gadw ar gyfer argyfyngau pan na allwn gael mynediad i Ashtons ar gyfer ein proses archebu arferol.</p> <p>Mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am lanweithdra a materion clinig.</p> <p>Mae system ar waith i gofnodi unrhyw stoc cyfnod byr. Mae'r holl nyrsys a gyflogir yn ymwybodol, fel rhan o'r archwiliad clinig wythnosol, eu bod am wirio dyddiadau dod i ben meddyginiaeth a dogfennu bod hyn wedi'i gwblhau. Os bydd unrhyw feddyginiaeth yn dod i ben o fewn tri mis, mae'r dyddiad yn cael ei amlygu, a bydd Ffurflen Stoc Dyddiad Byr Ashtons yn cael ei chwblhau.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod llyfrau cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gywir heb unrhyw gofnodion ar goll.</p>	<p>15. Rheoli meddyginiaethau</p>	<p>Mae archwiliadau ystafelloedd clinig wedi'u hadolygu ac yn cael eu monitro'n gadarn gan y tîm uwch-reolwyr. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p>	<p>Arweinydd clinigol a rheolwyr wardiau</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

		Anfonwyd gohebiaeth at y tîm nyrsio yn amlinellu'r gofynion yn unol â rheoliadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran sicrhau bod cofnodion cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau'n gywir.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyfeisiau meddygol yn lân a bod y llyfr rhestr wirio yn cael ei newid.	16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae'r llyfrau rhestr wirio wedi'u newid ar y wardiau, ond mae'n anochel y bydd yr ymylon yn gwisgo oherwydd defnydd.	Chloe Johnson a Lee Davies	Datryswyd a pharhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau monitro, goruchwyllo a chydymffurfio mwy cadarn yn cael eu rhoi ar waith i reoli risg a diogelwch yn yr ysbyty.	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae trosglwyddiad clinigol a diogelwch cleifion yn digwydd bob bore i adolygu a sicrhau bod y prosesau ar waith ar gyfer rheoli risg a diogelwch yr ysbyty. Yn ogystal, mae gwybodaeth wedi'i thriogli'n glir i sicrhau cyfathrebu effeithiol, gan gynorthwyo ymhellach y gwaith o reoli risg a diogelwch yr ysbyty. Ar ben hynny, mae rhestr o asesiadau risg cyfredol sy'n cael eu hadolygu fel y bo'n briodol, ynghyd ag adroddiadau/gweithdrefnau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).	Cadeiryddion cyfarfodydd diogelwch cleifion a throsglwyddo clinigol	Datryswyd a pharhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion disgrifiadol	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn ymdrechu'n barhaus i wella ac mae manylion	Dr Lisa Thomas-Gray a Chloe Johnson	Datryswyd a pharhaus

<p>cofnodi digwyddiadau yn parhau i wella.</p>		<p>disgrifiadol ar adrodd am ddigwyddiadau wedi'u cynnwys yn hyn. Y gobaith yw y bydd AGIC yn sylwi ar welliant amlwg yn ystod ei hymweliad nesaf.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff sy'n anghyfarwydd â chynnwys y ffurflenni digwyddiad yn cael hyfforddiant.</p>	<p>7. Gofal diogel a clinigol effeithiol</p>	<p>Rhoddodd Regis Healthcare Ltd y system cofnodion cleifion electronig newydd ar waith ym mis Mai 2019. Wrth gyfeirio at ffurflenni digwyddiad, maent yn mynd trwy nifer o brosesau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae aelodau o staff yn llenwi'r ffurflenni yn dilyn digwyddiad, sydd wedyn yn cael eu cymeradwyo gan nyrs ac yn olaf gan archwilydd i adolygu ansawdd. 2. Cânt eu hadolygu bob bore yn ystod y broses o drosglwyddo clinigol a diogelwch cleifion. Gofynnir i staff fynd ar drywydd unrhyw ffurflenni digwyddiad sydd ar goll ac a amlinellwyd yn ystod y cyfarfod a'u cwblhau. 3. Cânt eu hadolygu gan y tîm seicoleg, sy'n defnyddio'r data i chwilio am themâu, patrymau a newidiadau a chynnal dadansoddiadau ac adroddiadau gweithredol. Defnyddir y data o ffurflenni digwyddiad hefyd i sicrhau bod 	<p>Pob arweinydd adrannol</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

		<p>adlewyrchiad cywir o risgiau yn cael ei gynnwys yn asesiad risg Dadansoddiad Swyddogaethol o Amgylcheddau Gofal (FACE), cynlluniau rheoli risg, ffurflenni ymgysylltu therapiwtig a fformwleiddiadau clinigol.</p> <p>4. Adolygir data digwyddiadau gan y tîm clinigol yn ystod rowndiau ward, cyfarfodydd cynlluniau gofal a thriniaeth / y Dull Rhaglen Ofal ac yn benodol yn y cyfarfodydd arferion lleiaf cyfyngol. Darparwyd cofnodion i dîm arolygu AGIC.</p> <p>5. Cynhyrchir adroddiadau llywodraethu clinigol misol gan ddefnyddio data'r gwasanaeth cyfan i archwilio tueddiadau a gwersi a ddysgwyd ac a adolygwyd ymhellach i weithio'n barhaus i leihau digwyddiadau.</p> <p>6. Rhennir adroddiadau llywodraethu clinigol â thiworiaid Atal Rheoli Trais ac Ymosodedd i ganiatáu gwaith dadansoddi ac adolygu pellach i helpu'r gwasanaeth i barhau i weithio</p>		
--	--	---	--	--

		<p>i leihau daliadau diogel ar draws y safle.</p> <p>Gan fod Ysbyty Hillview yn gweithio gyda thîm cymysg o staff parhaol, banc, dan gontract ac asiantaeth, darperir hyfforddiant staff i sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â sut i gofnodi digwyddiadau a phwysigrwydd hynny.</p> <p>Yn ogystal, mae staff asiantaeth yn cael sesiwn sefydlu ward ar ddefnyddio Careblox wrth ddechrau gweithio yn Regis Healthcare Ltd.</p> <p>Ar ben hynny, mae Regis Healthcare Ltd yn croesawu ac yn annog staff asiantaeth i ymuno â'r hyfforddiant sefydlu i hyrwyddo dysgu a bod yn gyfarwydd â phrosesau'r gwasanaeth. Ym mis Mai 2020, crëwyd ffolder gwybodaeth ward hefyd, sy'n darparu toreh o wybodaeth i gynorthwyo staff yn eu rôl, gan gynnwys defnyddio system Careblox. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar bob ward.</p> <p>Cydnabyddir y bydd staff nad ydynt wedi'u neilltuo i'r person ifanc ar adegau yn llenwi</p>		
--	--	--	--	--

		ffurflen digwyddiad. Os bydd hyn yn digwydd, nodir hyn yn glir ar y ffurflen digwyddiad.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn monitro cydymffurfedd y staff â pholisïau a gweithdrefnau wrth gwblhau ffurflenni digwyddiad.	7. Gofal diogel a clinigol effeithiol	<p>Rhoddodd Regis Healthcare Ltd y system cofnodion cleifion electronig newydd ar waith ym mis Mai 2019. Wrth gyfeirio at ffurflenni digwyddiad, maent yn mynd trwy nifer o brosesau fel y nodir uchod.</p> <p>Ar ben hynny, mae Regis Healthcare Ltd yn croesawu ac yn annog staff asiantaeth i ymuno â'r hyfforddiant sefydlu i hyrwyddo dysgu a bod yn gyfarwydd â phrosesau'r gwasanaeth. Ym mis Mai 2020, crëwyd ffolder gwybodaeth ward hefyd, sy'n darparu toreth o wybodaeth i gynorthwyo staff yn eu rôl, gan gynnwys defnyddio system Careblox. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar bob ward.</p> <p>Cydnabyddir y bydd staff nad ydynt wedi'u neilltuo i'r person ifanc ar adegau yn llenwi ffurflen digwyddiad. Os bydd hyn yn digwydd, nodir hyn yn glir ar y ffurflen digwyddiad.</p>	Dr Lisa Thomas-Gray a Lee Davies	Datryswyd a pharhaus

		<p>Atgoffir staff o bwysigrwydd cwblhau'r holl ddogfennau mewn modd amserol. Yn ogystal, mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, risgiau, ac a yw cynlluniau gofal wedi'u diweddarau yn dilyn hyn. Mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu a'u bod yn parhau i fod yn gyfredol – dangoswyd copi o'r gofrestr archwilio i arolygwyr AGIC yn ystod yr adolygiad.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn llenwi ffurflenni digwyddiad ar gyfer pob digwyddiad sy'n digwydd yn yr ysbyty.</p>	<p>7. Gofal diogel a clinigol effeithiol</p>	<p>Rhoddodd Regis Healthcare Ltd y system cofnodion cleifion electronig newydd ar waith ym mis Mai 2019. Wrth gyfeirio at ffurflenni digwyddiad, maent yn mynd trwy nifer o brosesau fel y nodir uchod.</p> <p>Atgoffir staff o bwysigrwydd cwblhau'r holl ddogfennau mewn modd amserol. Yn ogystal, mae adroddiad trosglwyddo cydgysylltydd yr uned wedi'i ehangu i ganiatáu ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, risgiau, ac a yw Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau</p>	<p>Dr Lisa Thomas-Gray a Lee Davies</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

		gofal yn cael eu hadolygu a'u bod yn parhau i fod yn gyfredol.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ffurflenni absenoldeb adran 17 yn dogfennu cyfranogiad y claf.	20. Rheoli cofnodion	Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan weithredol yn eu habsenoldeb adran 17. Mae llawer yn gofyn am hyn mewn rowndiau ward ac mae'n cael ei ddogfennu trwy ffurflen gais Newid Cleifion.	Clinigwyr cyfrifol a rheolwyr wardiau	Datryswyd a pharhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod crynodebau archwilio'r Ddeddf Iechyd Meddwl o gofnodion ar gael.	20. Rheoli cofnodion	Cynhelir archwiliadau rheolaidd gan weinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau cadernid pellach gyda chrynodebau ar gael – bydd hyn wedyn yn bwydo i mewn i'r cyfarfod archwilio ac effeithiolrwydd clinigol.	Dr Lisa Thomas-Gray	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth o alluedd i gydsynio i driniaeth yn cael eu cynnwys yng nghofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl.	20. Rheoli cofnodion	Mae'r rhain wedi'u lleoli ar Careblox, ac mae gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gweithio i sicrhau eu bod hefyd wedi'u lleoli yng nghofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Clinigwyr cyfrifol	Parhaus
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau archwilio allywodraethu yn gwella ar draws holl feysydd y sefydliad.	1 Fframwaith allywodraethu ac atebolrwydd	Mae gan Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd broses lywodraethu sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu wardiau • Rheoli meddyginiaethau • Cymhorthfa adnoddau dynol 	Eric Pwamang a Dr Lisa Thomas-Gray	Datryswyd a pharhaus

		<ul style="list-style-type: none"> • Llywodraethu iechyd a diogelwch • Rhwydwaith gweithwyr • Archwilio ac effeithiolrwydd clinigol • Llywodraethu diogelwch • Y lleiaf cyfyngol a'r gwersi a ddysgwyd • Rheoli gwelyau • Llywodraethu integredig • Llywodraethu corfforaethol <p>Rhodddwyd copïau o gofnodion cyfarfod llywodraethu Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd i dîm arolygu AGIC. Yn ogystal, dangoswyd iddynt archwiliadau ychwanegol a gynhaliwyd ar draws y gwasanaeth, gan gynnwys y rhai gan y swyddog iechyd a diogelwch i sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau COVID-19.</p> <p>Amlinellir archwiliadau pellach a wneir mewn calendr a ddosberthir ar draws y gwasanaeth.</p> <p>Fel y nodwyd mewn nifer o feysydd yn y cynllun gweithredu, mae prosesau archwilio ar waith ar gyfer cynlluniau gofal, asesiadau risg, meddyginiaethau, clinigau, a'r broses adrodd i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. Yn ystod adborth arolygiad AGIC, gofynnwyd yn benodol i'r tîm fod yn "ymwthiol" wrth reoli'r</p>		
--	--	---	--	--

		<p>archwiliadau hyn a meysydd o fewn y gwasanaeth, ac mae hyn yn cael ei gyflawni.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae'r gwasanaeth wedi gweithredu Teithiau Ansawdd, sy'n cynnwys gwiriadau a llywodraethu cadarn o ran yr amgylchedd.</p>		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gofynion staffio yn diwallu anghenion y grŵp cleifion.</p>	<p>24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu</p>	<p>Yn ogystal, mae Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd yn gwneud ymdrechion ar y cyd i staffio ar gymhareb 70/30 o fenywod i ddynion ar y wardiau i gefnogi'r bobl ifanc ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd yr anawsterau recriwtio cenedlaethol/byd-eang mewn nifer o sectorau. Ychwanegwyd hyn at y gofrestr risg gorfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ffocws.</p> <p>Mae'r gwasanaeth hefyd yn mynd ati i ddod o hyd i hyfforddeion ym meysydd seicoleg, therapi galwedigaethol a nyrsio i gefnogi a diwallu anghenion y bobl ifanc a'r gwasanaeth ymhellach.</p> <p>Mae gwaith dethol, llunio rhestr fer a chyfweld cadarn ar gyfer darpar weithwyr yn broses</p>	<p>Dr Lisa Thomas-Gray a Deborah Fry, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol</p>	<p>Datryswyd a pharhaus</p>

		barhaus, gyda'r nod o ddenu ymgeiswyr o safon uchel.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi.	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	<p>Gwnaeth Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd greu a phenodi rhywun i swydd rheolwr recriwtio newydd ddiwedd mis Tachwedd 2022 a chefnogir y swydd hon gan gynorthwyydd recriwtio gyda'r prif ffocws ar recriwtio i sicrhau bod ein swyddi gwag yn cael eu llenwi.</p> <p>Dylid nodi bod y DU wedi profi un o'r argyfyngau recriwtio a chadw'r gweithlu mwyaf aciwt, gyda galw uchel a sefyllfa cyflenwad isel. Er gwaethaf hyn, rydym wedi parhau â'n hymrwymiad drwy gyflawni ein hymgyrch recriwtio dreigl 12 mis i lenwi swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys iechyd meddwl cofrestredig, sy'n ymgyrch barhaus.</p> <p>Mae hysbysebion "ar agor" ac yn cael eu gosod ar ein gwefan ein hunain, gydag asiantaethau recriwtio, ac ar y safle swyddi Indeed, sy'n denu llawer o ymgeiswyr. Rydym hefyd yn gosod swyddi allweddol/uwch ar wefannau targedig, e.e. gwefan swyddi'r GIG ac asiantaethau recriwtio penodol.</p>	Dr Lisa Thomas-Gray a Deborah Fry, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol	Parhaus

		<p>Mae gwaith dethol, llunio rhestr fer a chyfweld cadarn ar gyfer darpar weithwyr yn broses barhaus, gyda'r nod o ddenu ymgeiswyr o safon uchel.</p> <p>Ers i gyfyngiadau COVID-19 godi (o fis Ionawr 2022), mae ein tîm recriwtio wedi mynychu nifer o ffeiriau recriwtio i sicrhau bod ein swyddi gwag a chyfleoedd gyrfa yn cyrraedd cronfa ehangach o ymgeiswyr.</p> <p>Oherwydd y prinder cenedlaethol o nyrsys, mae Regis Healthcare wedi ehangu ei chwiliad am dalent trwy recriwtio rhyngwladol, gan recriwtio nyrsys iechyd meddwl o Ghana.</p> <p>Ers mis Chwefror 2022, rydym wedi penodi saith nyrs ryngwladol o Ghana ac rydym yn y broses o'u cefnogi ar eu taith cyn-gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, h.y. asesiadau therapi gwybyddol ymddygiadol a System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS), cyn cael nawdd i ddod i'r DU.</p> <p>Byddwn yn parhau i archwilio'r cyfle i recriwtio'n rhyngwladol ar gyfer nyrsys iechyd meddwl Cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd lle bo angen oherwydd y prinder cenedlaethol.</p>		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau ei fod yn gwella'r trefniadau presennol ar gyfer recriwtio a chadw	24. Arferion recriwtio a	Gwnaeth Ysbyty Hillview – Regis Healthcare Ltd greu a phenodi rhywun i swydd rheolwr recriwtio	Dr Lisa Thomas-Gray a Deborah Fry,	Mae gwaith yn parhau o ran recriwtio, gan ystyried

<p>staff er mwyn cynnal grŵp staffio sefydlog ar gyfer y cleifion.</p>	<p>chyflogi'r gweithlu</p>	<p>newydd ddiwedd mis Tachwedd 2022 ac fe'i cefnogir gan gynorthwydd recriwtio i sicrhau bod ein swyddi gwag yn cael eu llenwi.</p> <p>Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad a'n gwaith i gyflawni ein hymgyrch recriwtio dreigl 12 mis ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd ac nyrsys iechyd meddwl cofrestredig, sy'n ymgyrch barhaus.</p> <p>Gan fod cadw staff yn bwysig i ni, rydym yn cynnal arolygon boddhad gweithwyr a chyn bo hir byddwn yn cyflwyno rhaglen dreigl o sioeau teithiol ymgysylltu â chyflogeion a fydd yn ein cynorthwyo i nodi meysydd y gallai fod angen i ni ganolbwyntio arnynt a gwella arnynt. Bydd hyn yn ein helpu i gynnal amgylchedd gwaith sy'n cefnogi staff presennol i aros gyda'n sefydliad.</p> <p>Mae ein hadran Adnoddau Dynol yn parhau i gynnal cymorthfeydd adnoddau dynol cyfrinachol i nodi unrhyw feysydd sydd angen camau adferol a chymorth i staff.</p>	<p>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol</p>	<p>anawsterau staffio bydeang</p>
--	----------------------------	---	-----------------------------------	-----------------------------------

		Rydym yn parhau i gasglu adborth gwerthfawr trwy ein proses cyfweliad ymadael er mwyn cael cipolwg ar y rhesymau pam mae staff yn gadael fel y gallwn ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella.		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Eric Pwamang (Prif Swyddog Gweithredol / Rheolwr Cofrestredig) a Dr Lisa Thomas-Gray (Cyfarwyddwr Ysbyty)

Swydd: Prif Swyddog Gweithredol / Rheolwr Cofrestredig a Chyfarwyddwr Ysbyty

Dyddiad: 10.06.2022